
Cynllun Gwaith Ofcom 2022/23 - ymatebion rhanddeiliaid

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Atodiad i'r Datganiad:

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mawrth 2022

A1. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Digwyddiadau ymgynghori ac ymatebion

- A1.1 Fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Gwaith arfaethedig ar 15 Rhagfyr 2021 ar gyfer ymgynghori arno.
- A1.2 Ar 24 Ionawr 2022 fe wnaethom gynnal digwyddiad rhithwyr ar draws y gwledydd i gael adborth ar y Cynllun Gwaith arfaethedig. Roedd hyn yn gyfle i ni ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chlywed safbwyntiau amrywiol am flaenoriaethau Ofcom.
- A1.3 Cawsom 55 o ymatebion ysgrifenedig i'n Cynllun Gwaith arfaethedig gan gwmnïau cyfryngau a chyfathrebiadau, cyrff masnach, sefydliadau budd defnyddwyr, ac unigolion.
- A1.4 Rydym wedi ystyried pob cyflwyniad wrth lunio ein Cynllun Gwaith terfynol, ac rydym wedi cyhoeddi pob cyflwyniad nad oedd yn gyfrinachol yn llawn ar ein gwefan.¹ Isod, rydym wedi darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd, ynghyd â'n hymatebion i'r prif bwyntiau, wedi'u grwpio yn ôl blaenoriaeth strategol.

¹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/plan-of-work-2022-23>

Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel

Adolygiad o'r Strategaeth Symudol

- A1.5 Nododd sawl cyfraniad bwysigrwydd adolygiad Ofcom o'r strategaeth symudol, gan gynnwys, ymysg pethau eraill, ei botensial ar gyfer cysylltu ardaloedd anodd eu cyrraedd.
- A1.6 Nododd BT mewn perthynas â'r adolygiad o'r Strategaeth Symudol fod yn rhaid i bolisi a rheoleiddio gydnabod yr heriau sy'n bodoli i'r diwydiant a datblygu i gefnogi'r buddsoddiadau hirdymor y mae BT eisoes yn eu gwneud.
- A1.7 Roedd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu yn croesawu rhagor o waith monitro a phrofi i sicrhau bod gan holl ddefnyddwyr y DU signal teilwng, dibynadwy a fforddiadwy, mewn perthynas â ffactorau daeryddol sydd y tu hwnt i reolaeth defnyddwyr, gan nodi'r risg o grwydro anfwriadol yng Ngogledd Iwerddon.
- A1.8 Pwysleisiodd Llywodraeth yr Alban fod yn rhaid i'r adolygiad o'r Strategaeth Symudol hwyluso'r gwaith o gyflawni gwelliannau i gymunedau gwledig, anghysbell ac ynysoedd – ac, yn unol â hynny, ystyried priodoldeb rheoleiddio ar lefel fanylach nag yn y gorffennol.
- A1.9 Cynigiodd Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar (NADP) eu cymorth i gyfrannu at sut gellid gwella telathrebu i sicrhau cywerthedd ar gyfer pob lefel o golli clyw yn y dyfodol, gan nodi y dylai'r strategaeth gwmpasu'r ystod lawn o wasanaethau cyfnewid dros y ffôn a chynnwys gwasanaethau cyfnewid capsionau, yn enwedig ac ystyried bod llawer bellach wedi newid i gynnal tele-ofal ac ymgynghoriadau iechyd dros y ffôn.
- A1.10 Wrth ddiffinio ei strategaeth symudol, argymhellodd y Gynghrair Sbectrwm Deinamig (DSA) y dylai Ofcom ystyried y rôl bwysig y mae technolegau sydd wedi'u hesemptio o drwydded, ac yn benodol Wi-Fi, yn ei chwarae wrth ddarparu cysylltedd ar gyfer dyfeisiau symudol.
- A1.11 Nododd Vodafone bod angen i Ofcom sicrhau bod cystadleuaeth yn cael ei chynnal ar draws y gadwyn gwerth ehangach (y tu allan i wasanaethau adwerthu pur). Roeddent yn pwysleisio'r angen am chwarae teg ar draws y gadwyn gwerth telathrebu, gan sicrhau triniaeth gyfartal ar gyfer gwasanaethau digidol cyfartal.
- A1.12 Pwysleisiodd Apple ei bod yn bwysig i Ofcom ystyried yr anghenion sbectrwm ar gyfer technolegau sydd wedi'u hesemptio o drwydded er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol yn cael ei daro â gofynion sbectrwm trwyddedig.
- A1.13 Nododd cyfraniad gan un unigolyn y byddai dealltwriaeth gyffredin o'r derminoleg a ddefnyddir, fel 5G, o gymorth mawr i'r cyhoedd wrth asesu'r gwerth a gynigir gan ddarparwyr.

Ein hymateb

- A1.14 Nodwn y sylwadau uchod a oedd yn canolbwyntio ar ein Hadolygiad o'r Strategaeth Symudol. Gwnaethom gyhoeddi papur trafod ar ein dull gweithredu ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol ochr yn ochr â phapur trafod ar rwydweithiau

symudol a sbectrwm ym mis Chwefror. Rydym yn gwahodd sylwadau ar y ddwy ddogfen erbyn 8 Ebrill 2022. Rydym ni'n bwriadu nodi ein casgliadau erbyn diwedd 2022.

- A1.15 Nodwn y pwyntiau a wnaed gan Apple. Ofcom oedd un o'r rheoleiddwyr cyntaf yn Ewrop i ddarparu mynediad i'r band 5925-6425 MHz ar gyfer dyfeisiau Rhwydwaith Ardal Leol Radio pŵer isel (dyfeisiau RLAN). Rydym hefyd wedi agor nifer o fandiau amledd dros 100 GHz ar sail trwydded ysgafn. Mae Ofcom yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a gweinyddiaethau eraill i ddarparu mynediad at sbectrwm ar gyfer technolegau eraill.
- A1.16 Rydym yn cytuno ei bod hi'n bwysig bod angen yr wybodaeth iawn ar bobl a busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y gwasanaethau a'r dechnoleg symudol sydd orau iddyn nhw. Byddwn yn parhau i weithio ar hyn yn ystod 2022/23.

Marchnadoedd Digidol

- A1.17 Mynegodd BT ei siom nad yw Ofcom yn ceisio chwarae rhan weithredol yn y drefn marchnadoedd digidol newydd, gan nodi bod ei brofiad mewn marchnadoedd cyfathrebiadau yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i gymryd rhan flaenllaw mewn rhai agweddau ar reoleiddio cystadleuaeth ddigidol. Gofynnodd i Ofcom egluro ei rôl o dan y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) gan nad yw'r Cynllun Gwaith yn sôn am unrhyw brosiectau neu feysydd gwaith penodol y bydd Ofcom yn cyfrannu atynt o dan y Fforwm. Nododd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) ei bod yn hanfodol cael cydlynu rheoleiddiol er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed.

Ein hymateb

- A1.18 Rydym yn cynnal archwiliad o farchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebiadau, gan gynnwys eu perthynas â'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd a'r potensial ar gyfer materion cystadleuaeth mewn marchnadoedd o'r fath. Bydd hyn yn sail i asesiad Ofcom o'r flaenoriaeth ar gyfer ymgysylltu â marchnadoedd digidol penodol dros y blynyddoedd nesaf. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth o'r farchnad ar gyfer cyfrifiadura yn y cwmwl ac yn benodol ei rôl mewn telathrebu a darlledu. Rydym yn disgwyl rhoi rhagor o fanylion am ganlyniad yr adolygiad hwn ganol 2022. Rydym hefyd yn disgwyl cyhoeddi cyngor ar y cyd yn ystod y misoedd nesaf gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd/Ofcom ynghylch sut y gallai cod ymddygiad fynd i'r afael â phryderon am berthynas y cyhoeddwyr cynnwys/llwyfannau ar-lein.
- A1.19 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn weithgar yn hyrwyddo cydlyniant a chydlynu rheoleiddiol drwy'r fenter ar y cyd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i greu'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF). Yn ein Cynllun Gwaith, rydym hefyd yn nodi sawl maes lle bydd ein gwaith drwy'r Fforwm yn bwysig i gyflawni blaenoriaethau Ofcom, gan gynnwys wrth sefydlu gwaith rheoleiddio diogelwch ar-lein a chryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag aelodau eraill y Fforwm ar gynllun gwaith cyhoeddus y Fforwm yn 2022-23. Ynghyd â chyhoeddi'r cynlluniau hyn, bydd y pedwar rheoleiddiwr yn darparu adroddiad ar gynnydd yn erbyn cynllun gwaith y Fforwm ar gyfer 2021-22.

Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwyd.

- A1.20 Cododd nifer o'r cyflwyniadau bryderon ynghylch y mudo i wasanaethau protocol llais dros IP, gan nodi'r diffyg ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr a busnesau (agored i niwed) ynghylch y broses newid a mynegi pryderon am yr amserlen. Roedd pob un yn codi'r angen i'r partïon perthnasol, fel darparwyr cyfathrebu, Ofcom a Llywodraeth y DU ddod at ei gilydd i sicrhau bod cydlyniant priodol i ddiogelu ac i hysbysu defnyddwyr (agored i niwed) a sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl yn ystod y broses drosglwyddo. Yn y cyswllt hwn, nododd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) rywfaint o dystiolaeth o welliannau mewn prosesau a gofal cwsmeriaid ymysg darparwyr allweddol, y dylid eu datblygu ymhellach a'u hailadrodd ar draws yr ystod eang o gyflenwyr, gan gynnwys y chwaraewyr llai.
- A1.21 Nododd BT yn ei gyflwyniad fod Ofcom mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod gan bob Darparwr Cyfathrebu gynlluniau mudo cadarn ar waith fel rhan o'r rhaglen I-IP ac y dylai ddefnyddio ei safbwynt i ragweld lle gallai problemau godi ymhell cyn i'r drefn Rhentu Llinell Cyfanwerthol ddod i ben yn 2025, gan helpu'r diwydiant, lle bo modd, i ddod o hyd i atebion ar gyfer y materion hynny sy'n dod i'r amlwg. Dywed BT ei fod yn gweithio gyda'r llywodraeth i sicrhau, ymysg pethau eraill, bod seilwaith cenedlaethol hanfodol yn cael ei symud yn ddiogel o'r Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus (PSTN) a byddai'n croesawu cefnogaeth Ofcom yn y trafodaethau parhaus hynny.
- A1.22 Mynegodd Individual Protection Solutions (IPS) bryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai sgamwyr fanteisio ar ddefnyddwyr yn ystod ac ar ôl y newid, gan nodi bod Protocol Llais dros y Rhyngwyd (VoIP) yn gwneud ffugio neu ffugio rhifau Adnabod y Galwr yn llawer haws.
- A1.23 Roedd sawl cyflwyniad yn nodi'n benodol yr angen am fatri dibynadwy wrth gefn ar gyfer system sy'n seiliedig ar VOIP pan fydd toriadau mewn pŵer, yn enwedig i gwsmeriaid agored i niwed a allai golli mynediad hanfodol at ddyfeisiau fel larymau personol ac offer cyfathrebu heb ddewisiadau eraill hygyrch. Nododd Llywodraeth Cymru yn ei chyflwyniad y gofyniad gan ddarparwyr rhwydwaith i sicrhau y bydd y posibilrwydd o gysylltu â gwasanaethau brys yn bodoli am gyfnod byr, ond mae'n cwstiyu a yw hyn yn ddigonol.
- A1.24 Nododd NADP a Wavelength bryderon (a godwyd yn flaenorol) ynghylch yr effaith y gall mudo ei chael ar hen offer. Hefyd, mae Wavelength yn codi pryderon sylweddol ynghylch fforddiadwyedd.
- A1.25 Nododd y Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu hefyd heriau cystadleuaeth sy'n deillio o'r mudo, gan nodi'r angen i sicrhau nad yw adwerthwyr/ail-werthwyr llai dan anfantais o'i gymharu, er enghraifft, ag adwerthwyr mwy cwmnïau sydd wedi'u hintegreiddio'n fertigol.

Ein hymateb

- A1.26 Rydym wedi gosod disgwyliadau clir ar ddarparwyr llinellau tir ynghylch y newid i alwadau digidol. Ymysg pethau eraill, dylent gyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid a nodi pobl a allai fod mewn perygl oherwydd eu bod yn dibynnu ar eu llinell dir. Byddwn yn parhau i

fonitro'r mudo a sut mae darparwyr yn bodloni'r disgwyliadau hynny. Rydym hefyd yn croesawu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd sydd ar y gweill gan BT a sefydlu swyddogaeth gydlynw ar draws y prif ddarparwyr cyfathrebu yn TechUK i godi ymwybyddiaeth o'r mudo.

- A1.27 Rydym yn cytuno bod angen i ddarparwyr ddysgu o gynnydd y mudo i IP a byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr ynghylch eu cynlluniau a'u dulliau o fudo, a gyda rhanddeiliaid i ddeall risgiau a materion.
- A1.28 O ran mynediad at wasanaethau brys yn ystod toriadau mewn pŵer, mae ein canllawiau'n nodi bod yn rhaid i ddarparwyr telathrebu gael o leiaf un datrysiad, fel datrysiad symudol neu uned batri wrth gefn, sy'n galluogi mynediad at sefydliadau brys am o leiaf awr pe bai toriad pŵer. Fel arfer bydd unrhyw golli pŵer mewn lleoliad preswyl yn para llai nag awr ac o'r herwydd byddem yn disgwyl y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn gallu defnyddio eu ffôn symudol i wneud galwadau brys yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd pan fydd toriad mewn pŵer. Rydym yn cydnabod na ellir disgwyl i ddarparwyr ragweld lle bydd toriadau mewn pŵer oherwydd amgylchiadau eithriadol, na darparu datrysiadau sy'n diogelu cwsmeriaid yn yr holl amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, ynghyd â'r cwmnïau telathrebu, llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig a rheoleiddwyr eraill, byddwn yn nodi pa wersi y gellir eu dysgu ar gyfer cadernid rhwydweithiau yn y dyfodol o ystyried effaith y stormydd diweddar.
- A1.29 Byddwn yn ystyried yr heriau cystadleuaeth a godwyd fel rhan o'n hadolygiad arfaethedig o reoleiddio mewn marchnadoedd telathrebu cyfanwerthol o 2026 ymlaen.

Gwasanaethau cyfradd gigabit

- A1.30 Roedd y DSA yn cytuno ag Ofcom bod darparu rhynggrwyd band eang dibynadwy a fforddiadwy a mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel i bawb yn bwysig iawn ar gyfer cymdeithas ddigidol y DU yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi y bydd rhwydweithiau cyfradd gigabit, yn seiliedig ar ffeibr yn ogystal â thechnolegau mynediad eraill fel lloeren, cebl a Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) yn chwarae rhan hollbwysig yma.
- A1.31 Mynegodd CityFibre bryderon yn ei gyflwyniad ynghylch argaeledd gwybodaeth i ddefnyddwyr am fand eang gwibgyswllt/cyfradd gigabit, gan nodi bod crynodeb Ofcom o'r prosiect yn canolbwyntio ar yr hyn sydd i'w gyflawni ac yn dawel am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn. Fe wnaethon nhw sôn am yr angen i'r prosiect sicrhau bod defnyddwyr yn gallu deall a llywio'r technolegau gwahanol sydd yn y farchnad ar hyn o bryd, yn enwedig o ran y dryswch rhwng technolegau ffeibr llawn a ffeibr rhannol, gan ddatgan y dylid bwrw ymlaen â'r prosiect hwn fel blaenoriaeth frys, o ystyried bod defnyddwyr eisoes yn cael eu niweidio gan gamwybodaeth.
- A1.32 Mynegodd Openreach a chyflwyniad gan unigolyn bryderon pellach ynghylch terminoleg sy'n ymwneud â gigabits/gwibgyswllt gan nodi bod y diffyg terminoleg gyffredin yn arwain at ddryswch i gwsmeriaid fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r ymchwil GigaTag diweddar. Mae'r naill gyflwyniad a'r llall yn nodi'r angen i greu fframwaith enwi newydd gyda

naratifau sydd wedi'u deall yn dda i helpu defnyddwyr i newid o fod yn seiliedig ar gopr i fod yn dechnoleg Ffeibr Llawn.

- A1.33 Yn ei gyflwyniad, mynegodd Llywodraeth yr Alban yr angen i ddeall yn well sut mae Ofcom yn defnyddio ei ganfyddiadau o'r Adolygiad o Fynediad Sefydlog Telathrebu Cyfanwerthol 2021-26 i helpu i gyflawni Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU.
- A1.34 Nododd Cyngor ar Bopeth yr Alban (CAS) efallai nad yw llawer o ddefnyddwyr yn deall pa becynnau band eang sydd ar gael a pha un fydd yn diwallu eu gofynion orau. Dywedodd y gallai darparwyr ddefnyddio termau gwahanol i ddisgrifio cyflymder ac efallai na fydd defnyddwyr yn gwybod pa wasanaeth sydd ei angen arnynt i wneud eu gweithgareddau bob dydd, boed y rheini'n e-bost, yn ffrydio neu'n gyfarfodydd ar-lein. Roedd CAS yn teimlo, gyda dyfodiad gwasanaethau sy'n barod am gigabits, y gallai fod angen mwy o gymorth ar ddefnyddwyr i ddeall pa wasanaethau sydd orau iddyn nhw ac i atal cam-werthu.

Ein hymateb

- A1.35 Mae angen yr wybodaeth iawn ar bobl a busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y gwasanaethau band eang sydd orau iddyn nhw. Rydym wedi trefnu gweithgor yn y diwydiant i ddatblygu terminoleg gyffredin ar gyfer gwasanaethau band eang, gan gynnwys rhwydweithiau'r genhedlaeth nesaf cyfradd gigabit. Os na fydd gweithgor y diwydiant yn gallu gwneud cynnydd ar hyn o bryd, byddwn yn penderfynu'n gyflym ar y camau nesaf priodol. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd ag argymhellion gweithgor GigaTAG, sef y dylai'r diwydiant geisio datblygu terminoleg gyson a defnyddio achosion.
- A1.36 Byddwn yn parhau i roi cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data perthnasol (lle bo'n briodol), er mwyn helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni ei phrosiectau seilwaith telathrebu allweddol a sicrhau rhyngweithio mor esmwyth â phosibl â chynlluniau eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Niwtraliaeth y rhyngrwyd

- A1.37 Croesawodd BT, Vodafone a Which? yr adolygiad o reolau Niwtraliaeth y Rhyngrwyd.
- A1.38 Yn ei gyflwyniad gofynnodd BT i Ofcom edrych yn eang ar draws cadwyn gwerth y rhyngrwyd ac ystyried sut gellir diweddarau'r rheolau i adlewyrchu'r newidiadau yn yr ecosystem rhyngrwyd ers i'r rheolau gael eu drafftio gyntaf.
- A1.39 Nododd Vodafone ei farn bod rheoliadau niwtraliaeth y rhyngrwyd yn ddiangen ac yn niweidiol i fuddsoddiad, gan nodi bod y gallu i ddefnyddwyr newid darparwr symudol yn rhwydd yn golygu nad oes gan gwmnïau rhwydwaith gymhelliant i gymryd rhan mewn arferion rheoli rhwydwaith a allai achosi risg o niwed i ddefnyddwyr.
- A1.40 Ar nodyn tebyg, nododd Which? bwysigrwydd fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd newydd i helpu i sbarduno arloesedd a chaniatáu i fusnesau dyfu, gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu a'u bod yn dal yn rhan bwysig o'r fframwaith.

Ein hymateb

A1.41 Mae'r fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd wedi'i osod mewn deddfwriaeth ac mae'n mynnu bod rhwydweithiau'n trin holl draffig y rhyngrwyd yn gyfartal ac nad ydynt yn ffafrio rhai gwefannau neu wasanaethau. Bydd ein hadolygiad yn ystyried a yw'r fframwaith presennol yn gweithio'n dda ac a oes angen unrhyw newidiadau neu ganllawiau ychwanegol, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad ers rhoi'r fframwaith ar waith, er mwyn cefnogi arloesedd ar yr un pryd â pharhau i ddiogelu cwsmeriaid. Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ein hadolygiad yn ystod Haf 2022.

Diogelwch a Chadernid Rhwydweithiau

- A1.42 Roedd nifer o'r cyflwyniadau, gan gynnwys y rheini a wnaed gan BT, Vodafone a'r Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu, yn nodi'r angen am fwy o eglurder ynghylch gweithredu'r Rheoliadau Diogelwch Telathrebu, gan nodi'r angen am fframwaith ac amserlen glir sy'n cael ei chyfathrebu'n dda.
- A1.43 Nododd BT yn ei gyflwyniad bod angen i Ofcom ganolbwyntio mwy ar ddiogelwch a chadernid mewn seilwaith cyfathrebiadau yn ehangach o ystyried y risgiau posibl i ddefnyddwyr a busnesau mewn seilwaith a gwasanaethau rhyngrwyd hanfodol.
- A1.44 Nododd Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu (FCS) eu pryderon ynghylch y costau uwch y gallai eu haelodau eu hwynebu a sut y dylid dosrannu cyfrifoldebau. Mae Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu yn credu y dylai'r rhwymedigaeth/rheoleiddio gael ei thargedu at bartion seilwaith ac ar gyfer gwasanaethau OTT ar y cyflenwr/darparwr eu hunain.

Ein hymateb

- A1.45 Yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw arweinydd polisi'r Llywodraeth ar gyfer diogelwch yn y sector telathrebu, ac ar hyn o bryd mae'n ymgynghori ar ei chynigion ar gyfer rheoliadau a chod ymarfer newydd sy'n ffurfio'r fframwaith diogelwch telathrebu. Mae Ofcom wedi cael pwerau newydd i fonitro a gorfodi cydymffurfiaid â'r dyletswyddau newydd a rhaid iddo ystyried y mesurau sydd wedi'u nodi yn y cod ymarfer wrth gyflawni ei weithgareddau rheoleiddio.
- A1.46 Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu ein cyfrifoldebau o dan y fframwaith diogelwch telathrebu newydd, gan gyflawni ein rôl gorfodi, monitro cydymffurfiaeth a chyhoeddi canllawiau ar gyfer y diwydiant.
- A1.47 Byddwn hefyd yn parhau i wneud yn siŵr bod gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch a byddwn yn ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gynnal cynllun profion treiddiad bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST).
- A1.48 Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i ganfod a chau bylchau mewn safonau ac arferion gorau, cyhoeddi arweiniad mewn perthynas â chadernid rhwydweithiau a pharhau â'r rhaglen o fonitro dyluniadau cydnerth yn rhagweithiol wrth ddefnyddio rhwydweithiau

presennol. Nod Ofcom, drwy ei Adroddiad Blynyddol, yw adlewyrchu'r hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn yn erbyn ein Cynllun Gwaith.

- A1.49 Ar hyn o bryd mae Ofcom yn ymgynghori ar ei bolisi arfaethedig ar sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau sy'n deillio o Ddeddf Telathrebu (Diogelwch) 2021, sy'n cynnwys ein canllawiau gweithdrefnol a'n canllawiau ar gadernid.

Uned Monitro Openreach (OMU)

- A1.50 Roedd Openreach o'r farn y dylai'r adroddiad OMU blynyddol, sy'n cynnwys cydymffurfio ag Ymrwymadau BT ac a fydd yn darparu sylwebaeth sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol (WFTMR) yn y dyfodol, gael ei nodi fel adroddiad ar wahân yng Nghynllun Gwaith Ofcom. Y rheswm am hyn yw ei fod yn adroddiad pwysig yn yr amgylchedd telathrebu a'r fframwaith rheoleiddio sy'n cael ei ategu gan y WFTMR am y 5 mlynedd nesaf.
- A1.51 Nododd CityFibre y dylai datganiad diweddar Ofcom ynghylch ffocws newidiol yr OMU tuag at y rhwymedigaethau a gyflwynwyd yn y WFTMR gael ei adlewyrchu'n benodol yn y Cynllun fel maes gwaith strategol bwysig.
- A1.52 Byddai'r Gymdeithasol Rhwydweithiau Annibynnol Cydweithredol (INCA) yn croesawu ymgynghoriad ar sut y gellid defnyddio'r OMU yn y ffordd orau bosibl yn y farchnad. Mae INCA yn nodi bod nifer o feysydd lle dylai Ofcom fod yn monitro effaith y WFTMR yn ffurfiol.

Ein hymateb

- A1.53 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid dros y cyfnod rheoleiddio presennol. Mae hyn yn cynnwys monitro'r defnydd o ffeibr Openreach a chwmnïau eraill sy'n adeiladu rhwydwaith cyfradd gigabit. Nid ydym yn cynllunio unrhyw ymgynghoriadau ffurfiol ar hyn o bryd.

Mynediad Seilwaith goddefol

- A1.54 Nododd CityFibre fod cyflwyno Mynediad Seilwaith Goddefol, sy'n caniatáu i seilwaith sifil Openreach gael ei ailddefnyddio gan adeiladwyr rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd, wrth galon strategaeth Ofcom i hyrwyddo cystadleuaeth seilwaith. Er eu bod yn cydnabod bod llawer o gynnydd wedi cael ei wneud ar welliannau gweithredol i'r broses Mynediad i Seilwaith Ffisegol (PIA) yn ystod 2021, a bod Ofcom wedi cyflwyno newidiadau pwysig i'r rheolaethau prisiau ar gyfer PIA yn y WFTMR, maen nhw eisiau pwysleisio bod angen gwneud rhagor o welliannau gweithredol sylweddol, yn enwedig i sicrhau bod tegwch rhwng defnydd trydydd parti o seilwaith sifil Openreach a'i ddefnydd ei hun.

Ein hymateb

- A1.55 Bydd buddsoddi mewn ffeibr yn parhau i fod yn faes ffocws i Ofcom. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r broses o gyflwyno ffeibr drwy ein gwaith gan sicrhau bod gan ddarparwyr fynediad at bibellau a pholion Openreach, gan gefnogi'r nifer sy'n defnyddio gwasanaeth

cyflymach ochr yn ochr ag ymgysylltu ehangach ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys buddsoddwyr.

Creu Tryloywder

- A1.56 Yn ei gyflwyniad, cyfeiriodd CityFibre at Ofcom yn defnyddio ei bwerau statudol i gasglu gwybodaeth am gynlluniau adeiladu gweithredwyr a chynhyrchu darlun cyfunol ohonynt. Dywedodd CityFibre y byddai mwy o eglurder o ran cynlluniau o'r fath yn caniatáu i Ofcom fonitro ac, os oes angen, ymyrryd mewn perthynas â phryder penodol a nodwyd yn y WFTMR, ymddygiad goradeiladu strategol gan Openreach. Roedd CityFibre yn annog Ofcom i gyhoeddi'r wybodaeth hon ar ffurf ddigon tryloyw i ganiatáu i weithredwyr weithredu arni drwy deilwra eu cynlluniau buddsoddi i sicrhau'r ddarpariaeth ddaearyddol orau bosibl.
- A1.57 Nododd INCA a'i aelodau nad oeddent yn teimlo bod Ofcom yn cael digon o wybodaeth am gynlluniau a gweithgareddau Rhwydwaith Amgen (altnet) cyn nac yn ystod y broses WFMTMR. Dywedodd INCA yn ei ymateb nad oes gan Ofcom gyfle i gael yr un lefel o ddealltwriaeth o randdeiliaid band eang eraill ag sydd gan BT/Openreach, a bod angen i Ofcom fuddsoddi'n sylweddol mewn rhaglen ehangach o lawer i gynnwys y farchnad. Mae INCA yn credu y dylai Ofcom ychwanegu ffrwd waith at ei gynllun 2022/23 sy'n ymwneud yn benodol ag ymgysylltu gweithredol â'r holl randdeiliaid er mwyn cael dealltwriaeth gytbwys a chynhwysfawr o'r sector cyfan.

Ein hymateb

- A1.58 Ar hyn o bryd rydym yn casglu cynlluniau adeiladu rhwydwaith gan Ddarparwyr Cyfathrebiadau fel rhan o'n rhaglen adrodd Cysylltu'r Gwledydd, a fydd yn arwain at adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ac adroddiad cyhoeddus cysylltiedig. Pennir strwythur a chynnwys yr adroddiadau hyn ar ôl derbyn a dadansoddi'r data sylfaenol, gan roi sylw dyledus i'n rhwymedigaethau a'n dyletswyddau. Ar ben hynny, drwy Uned Monitro Openreach (OMU), byddwn yn casglu gwybodaeth ychwanegol am gynlluniau adeiladu FTTP Openreach a fydd yn ein galluogi i asesu'n gyflym unrhyw bryderon posibl ynghylch goradeiladu strategol.
- A1.59 Fe wnaethom ymgynghori'n helaeth yn ystod proses WFTMR, gan gynnwys cwrdd â nifer o rwydweithiau amgen, ac rydym o'r farn ein bod wedi cael digon o wybodaeth am gynlluniau a gweithgareddau'r diwydiant i'n galluogi i gwblhau'r adolygiad mewn ffordd resymol a chymesur. Wrth symud ymlaen, rydym yn awyddus i barhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddeall sut mae eu cynlluniau'n datblygu.

Cysylltu pawb

Diffodd 2G/3G

- A1.60 Roedd nifer o'r cyflwyniadau, gan NADP, Wavelength a Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon am y bwriad i ddiffodd rhwydweithiau symudol 2G/3G ac effaith bosibl hynny ar

ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig nad oes ganddynt fynediad at 4G a fydd yn dibynnu ar genedlaethau blaenorol i gadw mewn cysylltiad ar gyfer gwasanaethau llais a thestun.

- A1.61 Nododd NAPD y bydd cyfran sylweddol o'r boblogaeth wedi colli eu clyw ac felly nad oes fawr o angen iddynt uwchraddio eu ffôn symudol i ddyfais 4G. Felly, mae'n fwy tebygol y bydd angen annog pobl sydd â nam ar eu clyw i symud i 4G gyda'r gost gysylltiedig. Byddai NAPD yn croesawu'r cyfle i weithio gydag Ofcom i'w helpu i ddeall yn well sut mae mynd i'r afael â'r boblogaeth hon a hefyd i helpu i gyfathrebu ag aelodau a dilynwyd NAPD.
- A1.62 Roedd Wavelength yn annog Ofcom i adolygu ac ystyried y newidiadau arfaethedig mewn perthynas â'r effeithiau posibl y gallent eu cael ar unigrwydd a gosod costau ychwanegol ar ddefnyddwyr, yn ogystal â materion hygyrchedd.

Ein hymateb

- A1.63 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau, wrth i Weithredwyr Rhwydweithiau Symudol ddiffodd eu rhwydweithiau 3G a 2G, bod mesurau lliniaru digonol yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r effaith ar gwsmeriaid. Mae rhai gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedi cyhoeddi cynlluniau i ddiffodd eu rhwydweithiau 3G yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac maent wedi cadarnhau i Lywodraeth y DU nad ydynt yn bwriadu cynnig rhwydweithiau 2G a 3G ar ôl 2033 fan bellaf. Byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr symudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill er mwyn cefnogi'r broses a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn cael eu nodi ac yn cael sylw, gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a lleihau'r amhariad. Fel rhan o hyn, rydym yn fodlon ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch unrhyw effeithiau penodol ar grwpiau neu wasanaethau penodol.

Y Post a'r gwasanaeth post cyffredinol

- A1.64 Cyflwynodd nifer o rhanddeiliaid, gan gynnwys y Post Brenhinol, Cyngor ar Bopeth ac IPS, ymatebion am y post a'r gwasanaethau post cyffredinol, gan godi pryderon ynghylch fforddiadwyedd a chyffredinolrwydd y system bost yn benodol.
- A1.65 Nododd y Post Brenhinol ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'i holl rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn cadw'r Gwasanaeth Cyffredinol yn berthnasol ac yn gynaliadwy o ystyried y newidiadau yn anghenion cwsmeriaid ac yn neinameg y farchnad. Mae'r Post Brenhinol yn gofyn i hyn gael ei gynnwys yng Nghynllun Gwaith Ofcom yn y dyfodol.
- A1.66 Roedd y Gymdeithas Cyhoeddwy Proffesiynol (PPA) yn cefnogi'r gofyniad i'r Post Brenhinol osod ac adrodd yn erbyn disgwyliadau pum mlynedd fel gofyniad sylfaenol absoliwt. Fodd bynnag, nododd y dylai Ofcom adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn targedau o flwyddyn i flwyddyn gyda'r Post Brenhinol a meincnodi'r cynnydd yn erbyn cymariaethau rhyngwladol. Er bod y PPA yn gwerthfawrogi na all Ofcom roi ymrwymiad pendant o'r camau pellach y bydd yn eu cymryd os na fodlonir disgwyliadau effeithlonrwydd, dylai o leiaf roi syniad o'r camau y byddai'n eu hystyried.
- A1.67 Nododd Pwyllgor Cynghori Lloegr (ACE) Ofcom yr heriau sy'n gysylltiedig â lleihau niferoedd o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau post,

ond mae angen gwneud mwy o waith i ddod o hyd i ateb sy'n golygu bod modd cyrraedd targedau cyflawni ar yr un pryd â chynnal gweithrediad economaidd hyfyw a chynaliadwy.

- A1.68 Roedd CAS yn annog Ofcom i ystyried mesurau i sicrhau bod y Post Brenhinol yn cyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth fel sy'n ofynnol yn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Tynnodd CAS sylw hefyd at bryder nad oedd gan Ofcom y cydbwysedd cywir rhwng buddiannau defnyddwyr a chystadleuaeth o ran gwasanaethau post, gan gynnig y dylai Ofcom ganolbwyntio mwy ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gwsmeriaid post ac atal niwed, yn hytrach na datrys problemau sydd eisoes wedi digwydd. Awgrymodd CAS hefyd y dylai Ofcom fod yn fwy rhagweithiol ac ystywyth yn ei ddull rheoleiddio i ymateb i heriau marchnad sy'n esblygu'n gyflym.
- A1.69 Argymhellodd Cyngor ar Bopeth fod Ofcom yn cynnwys canlyniad a ddymunir ar gyfer gwasanaethau post yn ei Gynllun Gwaith, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau post yn gyffredinol, yn fforddiadwy, yn gyson ac yn deg i gwsmeriaid preswyl a busnes. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn nodi mai dim ond canran fach iawn o'r prosiectau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith sy'n ymwneud â'r post ac mae'n awgrymu y dylai Ofcom gynnwys gwasanaethau post yn fwy o'i waith presennol. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn cynnig prosiect newydd yng nghynllun gwaith Ofcom sy'n ymwneud yn benodol â materion fforddiadwyedd mewn gwasanaethau post.
- A1.70 Argymhellodd Cyngor ar Bopeth fod Ofcom yn cyflwyno gwasanaethau post yn benodol yn ei waith sy'n ymwneud â'i waith 'Fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebiadau'. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn argymhell bod Ofcom yn cynnwys gwasanaethau post yn benodol yn ei waith sy'n ymwneud â'i thema 'Cefnogi cwsmeriaid agored i niwed'.
- A1.71 Yn ei ymateb, dywedodd CAS, er ei fod yn falch o weld newidiadau diweddar mewn perthynas ag ailgyfeirio ar gyfer defnyddwyr sy'n cael budd-daliadau, ei fod yn credu bod angen gwneud mwy o hyd o ran materion fforddiadwyedd. Wrth ystyried sut mae gwella canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed, mae CAS yn annog Ofcom i fabwysiadu diffiniad eang o fregusrwydd.
- A1.72 Awgrymodd CCNI hefyd y dylai Ofcom gynnwys prosiect fforddiadwyedd gwasanaethau post yn ei gynllun gwaith, yn ogystal â chynnwys canlyniad arall i ddefnyddwyr i ganolbwyntio ei ddull gweithredu yn 2022/23 gan sicrhau mynediad at wasanaeth post dibynadwy a fforddiadwy i ddefnyddwyr a microfusnesau.
- A1.73 Nododd ACNI ei bod yn hanfodol bod Adolygiad presennol Ofcom o Reoleiddio Post yn rhoi ystyriaeth lawn i fuddiannau defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon sydd ag angen penodol am y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer llythyrau ail ddsbarth a gwasanaethau parseli. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod llawer o ddarparwyr parseli eraill yn codi tâl ychwanegol i anfon nwyddau i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr.
- A1.74 Roedd ymateb ACNI hefyd yn sôn bod mwy o ddefnyddwyr yn siopa ar-lein yn ogystal â'r effaith y gallai'r trefniadau hyn ei chael ar y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol post – yn enwedig y lefel uwch o niwed posibl i ddefnyddwyr agored i niwed neu ddefnyddwyr anabl sy'n fwy dibynnol ar siopa ar-lein. Mae hefyd yn gallu cael effaith fawr ar rai busnesau bach sy'n dibynnu ar gael nwyddau o Brydain Fawr i gynnal eu cadwyni cyflenwi,

gydag effeithiau ehangach ar yr economi ac ar ddefnyddwyr. Mae ACNI yn cydnabod bod gan Ofcom bwerau cyfyngedig yma ond mae'n gofyn iddo barhau i ddefnyddio ei rôl cynnull a chynghori i sicrhau bod y materion yn cael eu deall yn iawn.

- A1.75 Cododd IPS bryderon ynghylch post sothach a'r diffyg rheoleiddio sy'n galluogi aelwydydd i optio allan o'r economi hon. Mae IPS yn annog Ofcom i ystyried y risg o gynnwys data personol a allai fod yn niweidiol mewn gohebiaeth a gafodd ei gwaredu, ac mae'n nodi nad oes unrhyw orfodaeth i optio allan yn barhaol sy'n ymddangos yn fethiant o ran cwmpas.
- A1.76 Nododd Pwyllgor Cynghori Lloegr (ACE) Ofcom yr heriau sy'n gysylltiedig â lleihau niferoedd o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau post, ond mae angen gwneud mwy o waith i ddod o hyd i ateb sy'n golygu bod modd cyrraedd targedau cyflawni ar yr un pryd â chynnal gweithrediad economaidd hyfyw a chynaliadwy.

Ein hymateb

- A1.77 Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad ar reoleiddio'r post yn 2022 a fydd yn cwmpasu'r pum mlynedd ganlynol ac yn ystyried cynaliadwyedd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, effeithlonrwydd a mesurau diogelu priodol i ddefnyddwyr. Nid ydym yn bwriadu adolygu anghenion defnyddwyr ymhellach na chwmpas y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn 2022/23 oni bai fod Llywodraeth y DU yn ein cyfarwyddo i wneud hynny, neu ein bod yn credu fel arall bod rhesymau cryf dros wneud hynny.
- A1.78 Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gwasanaeth post dibynadwy i gwsmeriaid, a gallwn weithredu os na fydd y Post Brenhinol yn cyrraedd y targedau blynyddol rydym yn eu gosod ar gyfer ei berfformiad. Mae'r targedau hyn yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon o leiaf 93% o bost dosbarth cyntaf – ar draws y DU – o fewn un diwrnod gwaith i'w gasglu, a 98.5% o bost ail ddsbarth o fewn tri diwrnod gwaith, dros y flwyddyn ariannol gyfan. Rydym yn asesu perfformiad y Post Brenhinol yn erbyn y targedau hyn ar gyfer pob blwyddyn ariannol – gan edrych ar sut mae wedi perfformio dros y flwyddyn gyfan. Rydym hefyd yn casglu data ychwanegol i'n helpu i fonitro perfformiad gwasanaeth y Post Brenhinol. Er enghraifft, rydym yn derbyn gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad cyflenwi rhanbarthol. Mae'r gwaith monitro hwn wedi dwysau yn ystod y pandemig, fel y nodir yn ein Diweddariad Monitro Blynyddol.
- A1.79 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 5.2 y Cynllun Gwaith, mae'r canlyniadau a restrir yn adran 4 y Cynllun Gwaith yn rhestr fer ac ni fwriedir iddi gynnwys popeth. Fel y nodwyd gennym yn ein hymgyngoriad ar yr Adolygiad o reoleiddio post, un o'n prif amcanion yw "sicrhau bod pob defnyddiwr post yn gallu cael gafael ar wasanaethau post syml, fforddiadwy a dibynadwy sy'n diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i ddefnyddwyr gwasanaethau cyffredinol ond hefyd i ddefnyddwyr post ehangach, gan gynnwys pawb sy'n defnyddio gwasanaethau parseli a llythrau, ac anfonwyr a derbynwyr". Rydym o'r farn bod hyn yn amcan priodol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post ac yn un sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau defnyddwyr.
- A1.80 Mae traciwr gwasanaethau post Ofcom yn monitro fforddiadwyedd gwasanaethau post yn ofalus, gan gynnwys drwy gydol y pandemig. Mae ein gwaith ar wasanaethau post yn

ystyried yn ofalus y ffordd orau o gefnogi defnyddwyr agored i niwed mewn marchnadoedd gwasanaethau post, ac yn ymuno â chydweithwyr sy'n gweithio ar faterion cwsmeriaid agored i niwed mewn marchnadoedd telathrebu lle bo hynny'n briodol.

- A1.81 Rydym yn nodi sylwadau CAS bod ein cynigion i helpu i sicrhau bod gwasanaethau parseli yn diwallu anghenion defnyddwyr anabl yn well yn "gam cadarnhaol at sicrhau bod gwasanaethau post yn hygyrch i bob defnyddiwr". Rydym hefyd yn nodi sylwadau CAS ar fregusrwydd ac rydym yn ystyried y mater hwn ymhellach fel rhan o'n Hadolygiad o reoleiddio post. Byddwn yn ystyried ymatebion i'n hymgyngoriad yn ofalus cyn llunio ein rheolau newydd yn derfynol mewn Datganiad yn Ch2 2022/23.
- A1.82 Rydym yn ystyried y prosiectau priodol i'w cyflawni'n ofalus, ar sail ein dyletswyddau ac asesiad gwrthrychol o'r dystiolaeth sydd ar gael. Y ddau brosiect a restrwyd gennym yn adran A2 yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Gwaith yw ein gwaith yn monitro gwasanaethau post a'n Hadolygiad o reoleiddio post. Mae'r ddau yn brosiectau mawr sy'n edrych ar amrywiaeth o faterion i ddefnyddwyr yn y farchnad gwasanaethau post. Bydd fforddiadwyedd gwasanaethau post yn cael ei ystyried yn fanwl yn ein hadolygiad o'r capiau diogelu ar gyfer post ail ddsbarth y bwriadwn ymgynghori yn ei gylch yn 2023. Roeddem wedi asesu fforddiadwyedd gwasanaethau ailgyfeirio yn drwyadl fel rhan o'n Hadolygiad o reoleiddio post, ac rydym yn monitro materion fforddiadwyedd yn gyson ar gyfer defnyddwyr a busnesau drwy ein hymchwil i'r arolwg traciwr post.
- A1.83 Byddwn yn ystyried materion sy'n ymwneud â'r defnydd cynyddol o siopa ar-lein fel rhan o'n Hadolygiad o reoleiddio'r post, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a llunwyr polisi ynghylch codi tâl ychwanegol am barseli.
- A1.84 Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn cydnabod bod ansicrwydd parhaus ynghylch gofynion datganiadau ac amserlenni gweithredu, gan gynnwys ar gyfer gweithrediadau gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol. Mater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, cwmnïau post a grwpiau defnyddwyr i gynghori ar ac i ddeall y goblygiadau ar gyfer y farchnad bost.
- A1.85 Mae'r gwaith o reoli data personol, gan gynnwys yr hyn a ddefnyddir ar gyfer hysbysebu drwy'r post, yn cael ei reoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- A1.86 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn Cerbydau Allyriadau Isel lawn (ULEV) neu gerbydau trydan i'r Post Brenhinol er mwyn ei roi ar sylfaen gynaliadwy. Mae materion cynaliadwyedd a'r trawsnewid i sero net yn dod yn bwysicach ar draws yr economi ac i'n holl rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn y diwydiant i ddeall eu hagwedd at gynaliadwyedd ac ymdrechion i leihau allyriadau carbon. Nid oes gan Ofcom rôl ffurfiol ar hyn o bryd i ystyried nodau cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein fframwaith statudol. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud o fewn ein pwerau presennol, a thrwy gydweithredu gwirfoddol, ar sut y gallem gefnogi ein diwydiannau rheoledig wrth drawsnewid i sero net.

Cysylltedd Band Eang

- A1.87 Roedd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu yn croesawu gwaith parhaus Ofcom yn monitro'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang a'i ystyriaethau ynghylch fforddiadwyedd. Mae'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu yn gobeithio y bydd Ofcom yn gwrandio ar ddefnyddwyr a microfusnesau mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd er mwyn deall y ffordd orau o fynd i'r afael â'u hanghenion cysylltedd ac y bydd yn ystyried datrysiadau gyda'r diwydiant.
- A1.88 Yn ymateb Openreach, roedd yn cydnabod bod ardaloedd anghysbell a gwledig yn cyflwyno heriau penodol o ran darparu band eang sefydlog. Mae Openreach yn nodi y bydd yn parhau i helpu llawer o'r cartrefi sydd heb fynediad at fand eang teilwng fel Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol, yn ogystal â drwy ei ymrwymadau parhaus i nifer o gynlluniau band eang sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus. Mae Openreach hefyd yn annog Ofcom i weithio gyda'r diwydiant i helpu i feithrin cysylltiadau cryfach mewn ardaloedd anghysbell, gan ddysgu o enghreifftiau rhyngwladol hefyd.
- A1.89 Roedd ACNI yn cydnabod nad rôl Ofcom yw pennu nac ariannu polisi'r llywodraeth o ran cysylltedd band eang, ond mae'n nodi bod gan Ofcom, serch hynny, gyfraniad pwysig i'w wneud o ran llywio a datblygu'r broses hon a sicrhau ei bod yn uchel ar yr agenda i bawb dan sylw, gan adlewyrchu blaenoriaethau defnyddwyr, dinasyddion a chymdeithas. Hoffai ACNI weld Ofcom yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r gwaith hwn yn ei gynllun gwaith.
- A1.90 Dywedodd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban (ACS) nad yw amcan Ofcom yn ei Fesurau Canlyniadau Defnyddwyr sef 'gostyngiad yn nifer y cartrefi sy'n methu cael band eang 10Mbit yr eiliad' yn ddigonol. Dywedodd yr ACS hefyd y dylai'r adroddiad blynyddol adrodd hefyd ar nifer y cartrefi a'r busnesau sy'n cael band eang 30 Mbit yr eiliad a 100 Mbit yr eiliad.

Ein hymateb

- A1.91 Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang wedi'i nodi mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth y DU ac felly byddai unrhyw newidiadau iddo yn fater i Lywodraeth y DU. Roedd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol fel y mae wedi cael ei lansio ar 20 Mawrth 2020 a byddwn yn parhau i fonitro ei darpariaeth gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM). Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau'r DU a'r Gwledydd i ddeall sut mae anghenion cysylltedd pobl yn esblygu, a sut mae modd eu diwallu drwy gynlluniau cyhoeddus a/neu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol lle nad yw'n cael ei gyflwyno'n fasnachol. Gall gwasanaethau lloeren hefyd fod yn opsiwn i gwsmeriaid mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael – rydym yn bwriadu gweithio gyda darparwyr lloeren i ddeall yn fanylach beth mae modd ei ddarparu ar y rhwydweithiau hyn.
- A1.92 Rydym yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar argaeledd a gallu gwasanaethau band eang a symudol drwy ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd, gan nodi argaeledd gwahanol gyflymderau yn benodol. Ochr yn ochr â phrif adroddiad y DU, rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar wahân ar gyfer yr Alban a phob un o wledydd y DU. Mae ein dangosfwrdd rhyngweithiol yn galluogi pobl i gael gafael ar ddata'n hawdd ar gyfer gwahanol rannau o'r

DU a mathau penodol o wasanaethau. Mae'r data hwn hefyd ar gael ar lefel awdurdod lleol, Senedd yr Alban (a Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon) ac ar lefel etholaethau Senedd y DU.

Blychau Ffonio

A1.93 Roedd NADP yn dal i bryderu (fel y mynegwyd yn eu hymateb i'r ymgynghoriad blaenorol ar flychau ffonio cyhoeddus) y bydd pobl sydd â nam ar eu clyw yn llai tebygol o ddefnyddio blychau ffonio cyhoeddus heb sgrin y gallant ddarllen y testun arni i gael mynediad at wasanaethau Relay UK. Nododd NADP hefyd fod ar bobl nad ydynt yn gallu defnyddio'u llais angen ffordd i deipio'r hyn yr hoffent ei ddweud. Byddai NADP yn croesawu'r cyfle i drafod opsiynau i sicrhau nad yw'r rhan sylweddol hon o'r boblogaeth yn cael ei heithrio o'r gwasanaeth hwn, yn enwedig mewn sefyllfa o argyfwng mewn ardal lle mae darpariaeth symudol yn brin.

Ein hymateb

A1.94 Rydym yn cydnabod bod dal angen rhai blychau ffonio cyhoeddus – mae ein hymgyngoriad diweddar yn nodi cynigion i sicrhau bod blychau ffôn cyhoeddus y mae pobl yn dibynnu arnynt yn cael eu diogelu rhag cael eu tynnu (gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd sydd â darpariaeth symudol wael neu'r rheini sy'n dal i gael eu defnyddio'n rheolaidd). Rydym yn disgwyl cyhoeddi penderfyniad ar ein cynigion yn y gwanwyn.

A1.95 Roeddem hefyd wedi cynnig diwygio ein rheolau i roi mwy o hyblygrwydd i BT a KCOM yn y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig mewn blychau ffonio cyhoeddus - byddai hyn yn caniatáu i BT ddewis disodli ei flychau ffonio hyn â'i switsfyrddau newydd sy'n cynnig cyfleusterau ychwanegol fel sgriniau a Wi-Fi am ddim.

Data darpariaeth symudol

A1.96 Ymatebodd dau unigolyn ynghylch sut mae Ofcom yn cyflwyno data am ddarpariaeth. Roedd un unigolyn yn annog Ofcom i ddefnyddio data byd go iawn i ddangos darpariaeth a dywedodd y dylid newid darpariaeth poblogaeth bosibl i ddarpariaeth ddaearyddol. Nododd yr unigolyn arall ei safbwynt bod defnyddio cyfartaleddau i ddangos cynnydd yn annidwyll pan mai aelwydydd sydd eisoes â chyflymderau a darpariaeth ragorol sy'n gweld gwelliannau.

A1.97 Roedd NADP yn awyddus i gael canfyddiadau'r ymchwil i archwilio sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau ffonau symudol ac ansawdd y perfformiad a ddarperir iddynt gan weithredwyr rhwydweithiau symudol, ar yr amod ei fod yn caniatáu i'r data wahaniaethu rhwng y defnyddwyr sydd â chlyw arferol a'r rheini sydd â nam ar eu clyw – yn ddelfrydol, wedi'i ddadansoddi yn ôl i ba raddau mae pobl wedi colli eu clyw. Nododd NADP hefyd y byddai'n ddiddorol nodi i ba raddau y mae defnyddwyr yn defnyddio Relay UK o'i gymharu â'r boblogaeth bosibl a fyddai'n elwa o'r gwasanaeth hwn.

Ein hymateb

- A1.98 Byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu ein dull o wella gwybodaeth i ddefnyddwyr am ddarpariaeth symudol. Rydym o'r farn bod gan ddata byd go iawn a rhagfynegiadau wedi'u dilysu rolau pwysig, ategol i'w chwarae yn y gwaith hwn o hyd.
- A1.99 Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith i sefydlu sut gallwn ddatblygu ein dull o ddefnyddio data ffynhonnell torfol. Fodd bynnag, byddem yn nodi nad yw data o'r fath fel arfer yn cynnwys data personol unigol ac efallai na fydd yn caniatáu'r dadansoddiad a ragwelir yma.

Tegwch i gwsmeriaid

Newid Symlach

- A1.100 Cawsom nifer o ymatebion am newid symlach, gan gynnwys gan BT, Openreach a CityFibre, llawer ohonynt yn cefnogi ymgysylltiad Ofcom â'r diwydiant ar gyfer Newid Un Cam (OTS).
- A1.101 Yn ymateb BT, dywedodd ei fod yn cefnogi'r broses newydd hon a'i fod am iddi gael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, nododd BT fod y dyddiad cau, sef mis Ebrill 2023, yn heriol dros ben. Mae hyn oherwydd yr angen i ddylunio, caffael ac adeiladu canolfan gyfathrebu newydd lle bydd yr holl archebion i newid yn cael eu rheoli, a sefydlu strwythurau llywodraethu'r diwydiant o amgylch hyn. Galwodd BT am ymgysylltiad Ofcom i helpu i lywio penderfyniadau'r diwydiant, a darparu arweiniad amserol lle bo angen i helpu'r diwydiant i wneud y cynnydd cyflym sydd ei angen.
- A1.102 Nododd Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu (FCS) fod angen rhoi digon o ffocws Ofcom i'r farchnad fusnes er mwyn sicrhau llwyddiant y newid symlach hwn, a fydd yn ysgogi adferiad economaidd y DU a thwf yn y dyfodol. Mae FCS yn ceisio ymgysylltu ag Ofcom i drafod ateb llywodraethu'r diwydiant a'r endid ar gyfer yr holl rhanddeiliaid i gyflawni ateb OTS y diwydiant a phrosiectau cysylltiedig yn y diwydiant fel Cludo Rhifau. Mae FCS o'r farn bod hon yn eitem waith sylfaenol sy'n gofyn am ymgysylltiad helaeth gan Ofcom er mwyn darparu ateb cydlynol a gweithredol i'r diwydiant. Mae FCS yn dal yn bryderus bod amserlen yr OTS o bosibl yn rhy heriol. Argymhellodd FCS hefyd y dylai gofynion yr OTS ystyried anghenion busnesau yn unig, ac y dylid cynnwys Cludo Rhifau wrth feddwl yn gyntaf am OTS.
- A1.103 Mynegodd Openreach bryderon hefyd ynghylch amserlen yr OTS yn ei ymatebion. Nododd Openreach er bod modd cyflawni ei gynllun o fewn yr amserlen ofynnol ym mis Ebrill 2023, mae dibyniaeth glir ar ddarparwyr cyfathrebiadau ac adwerthwyr i fod mewn sefyllfa i brofi systemau, ac ati, mewn da bryd i'w lansio. Dywedodd Openreach hefyd mai un amcan polisi clir mewn perthynas â newid yw gwella'r profiad i gwsmeriaid – a nododd ei farn, er bod y cynigion presennol yn galluogi hyn ar gyfer chwarae deuol (llais a band eang), y gallai eithrio teledu drwy dalu danseilio'r amcan hwn.

Ein hymateb

- A1.104 Yn ein barn ni, mae'n bwysig bod defnyddwyr yn gallu elwa o'r broses newid newydd cyn gynted â phosibl. Rydym yn cydnabod bod llawer o waith yn ymwneud â gweithredu, ac rydym yn dal o'r farn bod mis Ebrill 2023 yn ddyddiad cau y mae modd ei gyflawni. Rydym yn dal i ddisgwyl y bydd y gweithredu'n dryloyw ac yn ymgynghorol, gan gydnabod yr angen am weithredu amserol ac arweinyddiaeth bendant.
- A1.105 Mae'r diwydiant, gyda chefnogaeth Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu (OTA), wedi sefydlu'r Grŵp Llywio Newid Un Cam i reoli'r broses weithredu. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli gwahanol sectorau o'r diwydiant, gan gynnwys adwerthwyr sy'n gwasanaethu busnesau. Mae'r diwydiant hefyd wedi sefydlu Grŵp Proses Newid Un Cam ar wahân a fydd yn ystyried, ymysg pethau eraill, y rhyngweithio rhwng Newid Un Cam a

phrosesau eraill y diwydiant. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn, gan nodi na ddylai unrhyw ddarparwr telathrebu sydd â rhywbeth i'w gyfrannu ar sail adeiladol gael ei eithrio rhag cymryd rhan yn y broses weithredu.

- A1.106 Y diwydiant sydd i ddarparu Newid Un Cam. Fodd bynnag, mae Ofcom yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio Newid Un Cam fel sylwedydd. Rydym yn dilyn datblygiadau'n agos ac yn cadw mewn cysylltiad â'r OTA i gynnig ein cefnogaeth a sicrhau bod y broses newydd yn cyd-fynd â'n penderfyniadau polisi a rhwymedigaethau darparwyr.

Defnyddwyr bregus a hygyrchedd

- A1.107 Cawsom lawer o ymatebion, gan unigolion yn ogystal â sefydliadau fel BT, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, Openreach a NADP, ynghylch gwneud yn siŵr bod anghenion defnyddwyr agored i niwed yn cael eu diwallu.
- A1.108 Nododd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu nad oes iaith gyson yn y sector cyfathrebiadau o hyd o ran yr hyn mae 'bod yn agored i niwed' neu 'bregusrwydd' yn ei olygu ac mae'n poeni nad yw defnyddwyr a fyddai'n elwa o gymorth ychwanegol yn gwybod beth sydd ar gael na'u bod yn cael gofyn amdano. Yn yr un modd, roedd Openreach yn cydnabod bod yr hyn sy'n achosi pobl i fod yn agored i niwed yn gymhleth a'i fod yn cynnwys amrywiaeth eang o amgylchiadau. Er mwyn cefnogi cwsmeriaid agored i niwed, roedd Openreach yn credu y dylai'r diwydiant ddod at ei gilydd i ddiffinio a gwasanaethu grwpiau bregus o'r fath yn well, fel bod gan Ofcom rôl bwysig i'w helpu fel rhan o'r broses hon.
- A1.109 Dywedodd BT ei fod yn llwyr gefnogi cynnig Ofcom i fonitro darparwyr cyfathrebiadau i sicrhau bod cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus yn cael eu trin yn deg. Nododd ei bod yn bwysig bod darparwyr yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng anghenion gwahanol grwpiau o fewn y categori ehangach o fod yn agored i niwed.
- A1.110 Yn ei ymateb, mae Wavelength Charity wedi codi nifer o faterion eraill ynghylch bod yn agored i niwed a mynediad at wasanaethau, gan gynnwys: tangynrychiolaeth pobl â namau neu gyflyrau iechyd mewn ymchwil; cylch gwaith a gweithrediadau Ofcom i gynnwys cynhwysiant pobl sydd â chyflyrau iechyd; adrodd ar wariant ar faterion sy'n ymwneud â gwahanol namau; hygyrchedd gwasanaethau ar-lein; monitro cwynion; cymeradwyo newidiadau gan ddarparwyr gwasanaeth sy'n achosi unigrwydd; a'r angen am gynlluniau cymorth sy'n cynnwys newid i VOIP a lleihau gwasanaethau radio analog.
- A1.111 Mae NADP yn credu bod angen gwneud mwy i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo gwasanaeth Relay UK i bob defnyddiwr er mwyn sicrhau bod unrhyw un sydd â nam ar ei glyw yn ymwybodol o fodolaeth y gwasanaeth ac yn gallu parhau i gyfathrebu dros y ffôn, drwy ddefnyddio llais, yn ôl yr angen. Mae NADP yn deall bod gan ddarparwyr cyfathrebiadau ddyletswydd o dan yr Amodau Cyffredinol i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth, ond mae'n teimlo nad yw hyn yn cyrraedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth sydd wedi colli eu clyw ar hyn o bryd. Byddai NADP hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod sut gall pobl fyddar sy'n defnyddio'r Saesneg fel iaith gyntaf gael mynediad gwell at wasanaethau

brys mewn ffordd sy'n cyfateb i'w cyfoedion sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain neu sy'n clywed.

- A1.112 Nododd NADP hefyd fod angen datblygu rhagor ar becynnau Adnabod Llais Awtomatig (ASR) mewn datrysiadau fideo-gynadledda drwy ddefnyddio ymchwil a phrofiad presennol o ddarparu is-deitlau, ac estyn allan at ddefnyddwyr sydd â nam ar eu clyw i wneud y rhain yn gwbl hygyrch. Gellid ymchwilio ymhellach i'r ffordd mae'r diwydiant Adroddwyr Llais i Destun (STTR) wedi addasu drwy ddefnyddio technoleg newydd i weld a ellid gwella gwasanaethau cyfathrebu a gynigir i bobl sydd â nam ar eu clyw yn gosteffeithiol, fel gwasanaethau Cyfnewid Ffôn ac isdeitlau byw. Fodd bynnag, nododd NADP eu bod wedi gweld defnydd cynyddol o AI i gynhyrchu llais yn Adnabod Llais Awtomatig a bod y llwyddiant wedi bod yn amrywiol. Mae mwy a mwy o bryder y gellid ystyried bod datblygu datrysiadau o'r fath yn addas i gymryd lle trawsgrifwyr dynol fel STTR, ond heb unrhyw fesur ansoddol a chyson i gyfiawnhau newid o'r fath. Maent yn credu y gallai Ofcom ddefnyddio ei safbwynt i sicrhau bod hyn yn cael blaenoriaeth cyn i niwed gael ei achosi drwy gyflwyno Adnabod Llais Awtomatig cyn pryd
- A1.113 Ailadroddodd NADP ei farn y dylai pob darparwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw ddarparu isdeitlau ar gyfer yr holl gynnwys a ddarledwyd yn flaenorol gydag isdeitlau. Maent yn credu bod angen cynnal rhagor o drafodaethau ac ymchwiliadau ynghylch ansawdd isdeitlau byw ar deledu daearol a gwasanaethau rhaglenni ar-alw ac y dylid datblygu a gweithredu rhagor ar y fethodoleg a'r metrigau a ddefnyddir yn adolygiad Ofcom o isdeitlo byw (2013-15) i sicrhau bod ansawdd isdeitlau byw yn cyrraedd y safonau cyfwerth angenrheidiol.
- A1.114 Tynnodd ACNI a NADP sylw at doriad Red Bee ym mis Medi, a gafodd effaith sylweddol a hir ar ddefnyddwyr sy'n dibynnu ar isdeitlau, arwyddo a disgrifiadau sain i gael mynediad at rai gwasanaethau allweddol, gan nodi ei bod yn bwysig i Ofcom ystyried pa waith pellach sydd ei angen i sicrhau mwy o wydnwch a bod problemau'n cael eu trwsio'n gyflymach. Nododd NDP hefyd y gwelliannau y gellid eu gwneud o ran cyfathrebu gan Ofcom ynghylch toriadau.

Ein hymateb

- A1.115 Rydym yn arddel agwedd gynhwysol ac eang at yr amgylchiadau sy'n gallu gwneud pobl yn agored i niwed yn ein gwaith ac mae ein canllaw ar drin cwsmeriaid agored i niwed yn deg yn nodi rhai enghreifftiau. Rydym yn casglu data'n rheolaidd am brofiad cwsmeriaid agored i niwed wrth ddefnyddio gwasanaethau yn y sectorau telathrebu a phost, sy'n cyfrannu at ein gwaith polisi a'n penderfyniadau. Mae pob un o'n tracwyr ymchwil defnyddwyr (sy'n cael eu cynnal bob blwyddyn fel arfer) yn casglu data ar gwsmeriaid agored i niwed fel mater o drefn, ac mae'r canlyniadau ar gael ar galendr datganiadau ystadegol Ofcom². Rydym hefyd yn cynnal ymchwil defnyddwyr ad hoc ymysg grwpiau agored i niwed, er enghraifft y llynedd roeddem wedi cynnal ymchwil a oedd yn edrych ar brofiadau rhai

² <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/data/statistics>

cwsmeriaid agored i niwed sydd wedi bod mewn cysylltiad â'u darparwyr cyfathrebiadau yn ddiweddar.

- A1.116 Rydym yn nodi gwaith y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu yn y maes hwn sy'n cyd-fynd â'n cynlluniau i fonitro a yw darparwyr yn trin cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn deg ac yn rhoi'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt iddynt. Rydym hefyd yn nodi sylwadau Openreach ar ein gwaith arfaethedig ynghylch cwsmeriaid agored i niwed ac rydym yn fodlon ymgysylltu ag Openreach ynghylch y gwaith hwn.
- A1.117 Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau ynghylch yr angen i hyrwyddo gwasanaeth cyfnewid fideo brys cyn y lansiad ym mis Mehefin, a byddwn yn manteisio ar y cyfle hwn i'w hatgoffa o'r angen i hyrwyddo cyfnewid testun. Byddem hefyd yn fodlon gweithio gyda NADP i hyrwyddo cyfnewid testun ymhlith ei aelodau. Mae pobl fyddar sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfnewid testun a/neu SMS brys i gysylltu â'r gwasanaethau brys. Mae Sgwrs Gyfan yn cael ei ddiffinio mewn safon³ Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU), ond nid yw'r safon hon yn cyfeirio at wasanaethau cyfnewid. Byddai Sgwrs Gyfan yn cyfeirio at y gwasanaethau brys yn fater i'r gwasanaethau brys yn hytrach nag Ofcom.
- A1.118 Nid yw Ofcom yn rheoleiddio meddalwedd fideo-gynadledda ac nid yw'n gallu gosod safonau ansawdd ar gyfer Adnabod Llais Awtomatig (ASR) at y diben hwn. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y gall capsionau sy'n defnyddio ASR fod yn werthfawr i bobl fyddar neu bobl drwm eu clyw sy'n defnyddio meddalwedd fideo-gynadledda. Rydym yn gosod safonau ansawdd ar gyfer cyfnewid testun, ac mae angen i'r cywirdeb o ran llais i drawsgrifio testun fod yn well na 98%. Nid oes cynlluniau i ddisodli cynorthwywyr cyfnewid dynol ag ASR, ond gwyddom fod rhai pobl fyddar yn defnyddio capsionau a gynhyrchir drwy ASR mewn rhaglenni fel Microsoft Teams.
- A1.119 Roedd Deddf yr Economi Ddigidol (2017) yn braenaru'r tir ar gyfer gofynion hygyrchedd gwasanaethau ar-alw sy'n cael eu rheoleiddio, ac ers hynny rydym wedi gwneud dwy set o argymhellion i Lywodraeth y DU ynghylch sut dylai gofynion o'r fath weithio'n ymarferol. Ar ôl cyflwyno rheoliadau o'r fath, byddwn hefyd yn diweddarau ein canllawiau arferion gorau ar ddarparu gwasanaethau mynediad. Byddem yn croesawu mewnbwn NADP yn y broses hon oherwydd efallai y byddwn yn gallu rhoi arweiniad i ddarlledwyr a darparwyr ar-alw ar y meysydd a godwyd yn ymateb NADP. Er enghraifft, byddwn yn ystyried ymhellach pa ganllawiau y gallem eu darparu ar sicrhau ansawdd isdeitlau, yn enwedig lle mae dulliau cwbl awtomataidd o gynhyrchu isdeitlau yn cael eu hystyried.
- A1.120 Rydym yn nodi sylwadau ACNI a NADP ynghylch y toriad a gafodd Red Bee Media. Mae Ofcom yn cynnal ymchwiliad i dan-ddarparu isdeitlau posibl gan Channel 4 ar lwyfan Freesat yn ogystal ag i ba raddau roedd y darlledwr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o argaeledd ei wasanaethau mynediad ar draws ei holl sianeli a llwyfannau yn ystod cyfnod y toriad. Ar ben hynny, rydym hefyd yn cynnal adolygiad ehangach o'r trefniadau trawsyrru

³ <https://www.itu.int/rec/T-REC-F.703/en>

a'r cyfleusterau wrth gefn a oedd wedi cael eu defnyddio gan ddarlledwyr adeg y digwyddiad, a pha newidiadau maent wedi'u gwneud o ganlyniad i hynny. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i osgoi digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn ystyried a fydd angen cymryd camau rheoleiddio pellach i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau mynediad dibynadwy yn dal ar waith ar gyfer cynulleidfaoedd, ni waeth pa ddigwyddiadau a allai ddigwydd i'r seilwaith darlledu sy'n cael ei ddefnyddio i'w darparu.

Fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebiadau

- A1.121 Ymatebodd amrywiol grwpiau defnyddwyr gan bwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau cyfathrebiadau fforddiadwy, yn enwedig yng nghyd-destun pryderon ehangach ynghylch costau byw.
- A1.122 Gofynnodd ACNI i Ofcom geisio, mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill o bosibl, gynnal ymchwil i ddeall yn well y darlun llawnach o bwysau ariannol wrth iddynt godi mewn gwahanol ffyrdd ar draws y DU. Mae ACNI yn credu y bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth gyfoethocach o'r materion a'r cyfleoedd ar gyfer lliniaru.
- A1.123 Nododd CCNI fod yn rhaid i Ofcom a'r diwydiant ddiogelu'n well y defnyddwyr hynny sy'n agored i niwed ariannol ac nad ydynt yn gallu talu eu biliau ffôn symudol, band eang a theledu drwy dalu, er mwyn lleihau'r risg o gylch dyled niweidiol a cholli mynediad at wasanaeth hanfodol.
- A1.124 Roedd Which? yn annog Ofcom i ystyried sut mae Hysbysiadau Diwedd Contract (ECNs) yn effeithio ar wahanol fathau o ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed neu'n llai tebygol o ymgysylltu. Roedd Which? hefyd yn argymhell y dylai Ofcom barhau i fonitro'r camau sy'n cael eu cymryd gan ddarparwyr i helpu'r defnyddwyr hynny sydd mewn perygl o ddyled a datgysylltu. Fel y nodir yn ymateb Which? i ymgynghoriad Ofcom ar y mater hwn, hoffai weld mwy o gysondeb gan ddarparwyr o ran darparu gwybodaeth am y camau y gallant eu cymryd i gyflwyno cyfyngiadau ar wasanaethau a datgysylltu cwsmeriaid. Hefyd, roedd Which? yn teimlo y dylai Ofcom weithio gyda darparwyr a sefydliadau eraill i helpu i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol.
- A1.125 Dywedodd BT y dylai Ofcom hefyd sicrhau bod pob darparwr yn cynnig tariffau cymdeithasol. Byddai CAS yn croesawu rhagor o waith efallai ar ffurf ymgyrch gyfathrebu, i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol/wedi'u targedu. Hefyd, tynnodd CAS sylw at y diffyg dewis sylweddol sydd gan ddefnyddwyr yn y farchnad symudol mewn perthynas â thariffau cymdeithasol neu wedi'u targedu oherwydd, ar hyn o bryd, nid oes yr un darparwr symudol yn cynnig tariff cymdeithasol na wedi'i dargedu.

Ein hymateb

- A1.126 Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau band eang sefydlog a gwasanaethau rhyngwryd symudol yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom.
- A1.127 Fel rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae llawer o'n penderfyniadau'n seiliedig ar ein hymchwil defnyddwyr, sy'n ein helpu i gael dealltwriaeth drylwyr, gadarn a chyfredol o

ddefnyddwyr y DU. Mae ein gwaith monitro rheolaidd o fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu yn dangos bod 5% o gartrefi'n ei chael hi'n anodd fforddio eu gwasanaeth band eang sefydlog, ac mae cyfran debyg yn wynebu problemau fforddiadwyedd gyda gwasanaethau i'w ffonau clyfar symudol. Rydym hefyd wedi canfod bod pobl sydd ar incwm is neu sy'n fwy agored i niwed ariannol yn ymgysylltu'n wahanol â marchnadoedd symudol mewn rhai ffyrdd. Er enghraifft, mae canlyniadau Traciwr Technoleg 2021 yn dangos bod aelwydydd ar yr incwm isaf tua dwywaith yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o ddiwynnu ar eu ffôn symudol fel eu hunig ffynhonnell o fynediad i'r rhyngwrwd.

- A1.128 Rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith i ddeall yn well beth sy'n achosi problemau fforddiadwyedd i ddefnyddwyr ffonau clyfar. Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni'n bwriadu cynnal ymchwil i ddefnyddwyr rhyngwrwd symudol yn unig. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar gymhellion/dewisiadau ar gyfer cael mynediad i'r rhyngwrwd drwy ddata symudol yn bennaf (yn hytrach na band eang sefydlog) ac asesu i ba raddau y mae'r grŵp hwn o ddefnyddwyr yn wynebu problemau fforddiadwyedd.
- A1.129 Fe wnaethom gynnal asesiad o effaith hysbysiadau diwedd contract (ECNs) yn 2021. Canfu hyn ei bod yn ymddangos bod hysbysiadau diwedd contract wedi cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad cwsmeriaid a bod ymgysylltiad cwsmeriaid band eang agored i niwed y tu allan i gontract wedi cynyddu ar yr un gyfradd â chwsmeriaid band eang y tu allan i gontract yn gyffredinol. Byddwn yn parhau i fonitro tueddiadau allweddol o ran prisio ac ymgysylltiad cwsmeriaid, yn enwedig wrth i hysbysiadau diwedd contract a Hysbysiadau Tariffau Gorau Blynyddol (ABTNs) ennill eu plwyf.
- A1.130 Ar 17 Mawrth 2022, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad⁴ yn nodi cynigion i helpu i sicrhau bod cwsmeriaid sydd mewn dyled neu sy'n ei chael hi'n anodd talu yn cael eu trin yn deg. Bwriad y cynigion hyn yw sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr ar sail fwy cyson. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol.
- A1.131 Mae chwe darparwr band eang sefydlog bellach yn cynnig tariffau cymdeithasol i bobl sy'n cael budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd am brisiau sy'n amrywio rhwng £10 a 20 y mis. Rydym yn parhau i annog darparwyr mawr i gynnig tariffau cymdeithasol ac i wneud mwy i godi ymwybyddiaeth ohonynt ymysg pobl gymwys. Ar ben hynny mae Ofcom yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â darparwyr a sefydliadau defnyddwyr ledled y DU, yn ogystal â rheoleiddwyr sectorau eraill, gan gynnwys drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU i rannu gwybodaeth i helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi'n briodol.

Galwadau niwsans a sgam

- A1.132 Teimlai IPS y dylid dyrannu mwy o adnoddau ac egni i fonitro ac ymchwilio i ddefnydd twyllodrus ac nad yw'n cydymffurfio o'r rhwydwaith ffôn. Roedd yn pwysu bod angen

⁴ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/call-for-inputs-review-of-measures-to-protect-people-in-debt-or-at-risk-of-disconnection>

gweithredu camau gorfodi ac ymchwilio Ofcom i gwmnïau telathrebu sy'n rhoi mynediad i ddefnyddwyr niwsans a sgam i'w rhwydweithiau. Roedd IPS hefyd yn credu y byddai'r effaith ataliol ar gwmnïau sy'n gwneud galwadau niwsans a sgam, wedi'i hategu gan CLIs camarweiniol, nad oes modd eu deialu ac sy'n newid yn barhaus, yn cynyddu petai Ofcom hefyd yn ymchwilio ac yn gweithredu yn eu herbyn, ochr yn ochr â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

- A1.133 Nododd CCNI yn ei ymateb fod lefel y niwed i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon a achosir gan sgamiau yn bryder mawr. Roedd yn teimlo bod yn rhaid gwneud llawer mwy o ymdrech i atal sgamiau a bod yn rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth strategol i Ofcom. Roedd yn argymhell bod angen ailgydbwysu'r risg gan ei bod yn rhaid i fanciau ad-dalu defnyddwyr sydd wedi cael eu hecsbloetio yn hytrach na chaniatáu disgrisiwn i fanciau ynghylch a ydynt am ad-dalu cwsmeriaid.
- A1.134 Mae Which? yn annog Ofcom i sicrhau bod cwsmeriaid Gweithredwyr Rhwydweithiau Rhithwir Symudol (MVNOs) hefyd yn cael manteision ymdrechion diweddar y gweithredwyr rhwydweithiau symudol i fynd i'r afael â SMS-rwydo, yn enwedig drwy fabwysiadu hidlyddion sbam SMS. Byddai Which? hefyd yn hoffi gweld Ofcom yn cyflwyno dull safonol ar draws y diwydiant symudol i sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael yr un amddiffyniad rhag twyll cyfnewid SIM neu gludo rhifau.

Ein hymateb

- A1.135 Yn ddiweddar cyhoeddodd Ofcom ddatganiad polisi yn nodi ei ddull gweithredu yng nghyswllt sgamiau⁵, ynghyd â dau ymgynghoriad⁶ sy'n cynnig cyflwyno mesurau newydd i leihau effaith galwadau sgam ar ddefnyddwyr yn y DU.
- A1.136 Mae gweithredwyr rhwydweithiau symudol naill ai wedi cyflwyno neu wrthi'n cyflwyno technoleg sy'n gallu canfod nodweddion allweddol negeseuon testun sgam sy'n cael eu hanfon dros eu rhwydweithiau, gan eu galluogi i rwystro mwy o negeseuon amheus ("hidlo SMS"). Cawn ar ddeall bod darparwyr gwasanaethau symudol eisoes yn cynnig hidlo SMS ar rai o'u gwasanaethau MVNO a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i ddeall ymarferoldeb technegol defnyddio hidlo SMS yn ehangach.

⁵ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/policy/tackling-scam-calls-and-texts>

⁶ Ymgynghoriad: Canllaw arfer da i helpu i atal camddefnyddio rhifau sydd wedi'u hail-neilltuo a'u dyrannu (<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/good-practice-guide-on-sub-allocated-assigned-numbers>) ; Ymgynghoriad: Gwella cywirdeb data Adnabod y Galwr (CLI) (<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/improving-cli-data-accuracy>)

Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

Dyrannu Sbectrwm

- A1.137 Croesawodd BT waith parhaus Ofcom ar ei raglen sbectrwm, yn enwedig dyfarnu 26 GHz, map sbectrwm y dyfodol ac awdurdodi dronau. Nododd BT y dylai Ofcom sicrhau ei fod wedi asesu'r gwahanol opsiynau ar gyfer defnyddio'r sbectrwm UHF a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer teledu daearol digidol yn y dyfodol cyn Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd-ITU--23 (WRC-23) y flwyddyn nesaf. Byddai BT hefyd yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch beth yw camau nesaf Ofcom ar ei fap sbectrwm.
- A1.138 Dywedodd Nokia fod argaeledd sbectrwm yn hollbwysig i randdeiliaid er mwyn gallu defnyddio a datblygu eu gwasanaethau. Mewn perthynas â'r mmWave, dywedodd Nokia y dylai tua 1000 MHz o sbectrwm cyffiniol fod ar gael i bob gweithredwr er mwyn galluogi nodweddion go iawn 5G.
- A1.139 Yn gyffredinol, cytunodd Apple y dylai sbectrwm fod ar gael cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Roeddent yn pwysleisio nad oeddent o reidrwydd yn cytuno y dylid clirio bandiau'n benodol cyn eu rhyddhau os yw cydfodolaeth a rhannu'n ymarferol, oni bai fod rhyw fath o bris cymhelliant wedi'i ddefnyddio neu ddadansoddiad cost a budd llawn wedi'i gynnal. Roeddent hefyd wedi nodi eu diddordeb ym mha fandiau amledd y mae Ofcom yn eu hystyried ar gyfer mmWave uwchlaw a thu hwnt i'r bandiau 26 GHz a 66 GHz. Mewn perthynas â 6G, roedd Apple o'r farn bod angen gwahaniaethu rhwng sbectrwm newydd a'i oblygiadau ar dechnolegau radio a rheolau defnyddio/trwyddedu ar gyfer sbectrwm newydd a'r sbectrwm presennol. Dylai ymchwiliadau gynnwys sbectrwm trwyddedig o'i gymharu â defnydd hyblyg a chynyddol o sbectrwm sy'n cael ei rannu. Dylai dyluniad pensaernïaeth a rheolau sbectrwm alluogi estyniadau i rwydweithiau lleol a phreifat ac estyniadau i wasanaethau. Dylid ystyried hyblygrwydd i alluogi achosion busnes a defnydd newydd, y gallu i addasu i anghenion lleol (ac amserol), gan alluogi mynediad agored a theg ac osgoi darnio (safonau a sbectrwm).
- A1.140 Nododd Ericsson fod y diwydiant symudol ochr yn ochr â GSMA wedi adolygu gofynion sbectrwm rhwng 2025 a 2030. Casgliad asesiad GSMA yw bod angen 2 GHz o sbectrwm canol band ar gyfartaledd i sicrhau defnydd effeithlon ac i ystyried pob defnyddiwr mewn modd teg a thryloyw. Nododd Ericsson nad oeddent yn gweld unrhyw eitem benodol yn y Cynllun Gwaith mewn perthynas â 6G. Fodd bynnag, maent wedi sylwi ar ymgynghoriad diweddar ar THz mewn perthynas â 6G: Datgloi potensial sbectrwm radio Terahertz.⁷ Argymhellodd Ericsson y dylai rheoleiddwyr ystyried ystod eang o sbectrwm ar gyfer 6G gan gynnwys ystodau is, yn enwedig 8-15 GHz. Nododd Ericsson y gallai Ofcom ystyried archwilio 6G fel rhan o raglen waith 2022/23.
- A1.141 Nododd un cyflwyniad gan unigolyn fod rhwydweithiau nad ydynt yn rhai cyhoeddus yn cynnig manteision mawr i UK PLC ac y dylid eu blaenoriaethu dros rwydweithiau cyhoeddus y dylid eu hannog i sicrhau defnydd (a darpariaeth) effeithlon o'u dyraniadau

⁷ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0032/228929/terahertz-spectrum-paper.pdf

presennol. Dylai unrhyw adolygiad ystyried a yw'r dyraniadau cyfredol yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod eu darpariaeth yn cael ei chynyddu.

- A1.142 Nododd Vodafone y dylai polisi sbectrwm gael ei adolygu hefyd drwy lens o blaid buddsoddi i gefnogi'r weledigaeth 5G ac y dylid ailedrych ar y system Ffioedd Trwyddedau Blyneddol (ALFs). Dylai Ofcom adolygu ei ddull gweithredu ar gyfer amcangyfrif ALFs gyda'r bwriad o leihau afluniadau ac adlewyrchu gwerth cymdeithasol a'r gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan y gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn fwy cywir. Dylid ystyried clustnodi refeniw ALF ar gyfer ei (ail)fuddsoddi mewn rhwydweithiau symudol.
- A1.143 Nododd Vodafone hefyd y dylai Ofcom sicrhau bod mecanweithiau marchnad effeithiol ar gael i ganiatáu i ddeiliaid trwyddedau sbectrwm fasnachu sbectrwm nad yw'n cael ei ddefnyddio neu ei ddefnyddio'n ddigonol, gan greu cymhelliant cryf i weithredwyr rhwydweithiau wneud y gorau o'r sbectrwm maent yn ei ddal. Maent hefyd yn datgan y dylai Ofcom atal manteision sbectrwm na ellir eu cyfateb drwy gadw'r hen reol Ewropeaidd sy'n gwahardd Ofcom rhag ystyried derbyniadau o arwerthu wrth ddylunio dyfarniadau, a diwygio'r dull gweithredu ar gyfer arwerthiannau sbectrwm lle mae lle i rannu sbectrwm. Mae Vodafone hefyd yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r ffordd anghyson mae rhwydweithiau symudol cyhoeddus a phreifat yn cael eu trin, er mwyn atal mynediad annheg at sbectrwm. Mae'r trefniadau presennol yn ystumio cymhellion ac yn tanseilio buddsoddiad mewn seilwaith rhwydweithiau symudol cyhoeddus.
- A1.144 Nododd y Joint Radio Company eu pryder bod mynediad cyfleustodau at ddyraniadau sbectrwm eraill wedi cael eu cwtogi neu eu dileu'n llwyr. Maent yn nodi pryder penodol ynghylch tynnu'r band 1.4 GHz yn ôl o 2024 (i'w addasu ar gyfer Cysylltiad Atodol i Lawr), sy'n arwain at waith mudo sylweddol i fandiau amledd amgen, yn ogystal â chyhoeddiadau diweddar ynghylch newidiadau i'r band 26 GHz microdon (i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau 5G a 6G), gan fod y ddau yn arwain at gostau uchel a fydd yn cael eu hysgwyddo gan gwsmeriaid ynni yn y pen draw. Maent yn nodi bod y newidiadau mawr i'r tri band amledd hyn yn ymddangos yn groes i'r gwaith presennol i adolygu'r gofynion (cynyddol) sy'n newid er mwyn i gyfleustodau gael mynediad at sbectrwm radio penodol i hwyluso datblygiadau 'Grid Clyfar'.

Ein hymateb

- A1.145 Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi cais am fewnbwn ar WRC-23 yn ddiweddarach eleni a fydd yn nodi ein syniadau newydd ar yr amrywiol Eitemau Agenda (gan gynnwys sbectrwm Amledd Uchel Iawn (UHF)) a fydd yn cael sylw yn WRC-23. Nodwn sylwadau BT ar y map sbectrwm a bwriadwn ei gyhoeddi cyn bo hir a chrosawn adborth gan rhanddeiliaid.
- A1.146 Nodwn y sylwadau a godwyd gan Apple a Nokia ar sbectrwm tonnau milimedr (mmWave), a byddwn yn ystyried y sylwadau hyn yn ein hymgyngoriad arfaethedig ar sicrhau bod sbectrwm mmWave ar gael ar gyfer gwasanaethau newydd, gan gynnwys 5G.

- A1.147 Gwnaethom gyhoeddi papur trafod⁸ ar rwydweithiau symudol a sbectrwm ym mis Chwefror a oedd yn ystyried sut gallai fod angen i rwydweithiau symudol esblygu i ddiwallu'r galw yn y dyfodol a darparu profiad o'r ansawdd sydd ei angen ar ddefnyddwyr a busnesau yn y cyfnod hyd at 2035. Rydym yn gwahodd sylwadau erbyn 8 Ebrill 2022, gan gynnwys ynghylch a oes ystodau amledd penodol y dylid eu hystyried ar gyfer mynediad symudol i gefnogi'r ddarpariaeth capasiti yn y dyfodol.
- A1.148 Mae'r broses o ddiffinio beth fydd nodweddion 6G yn dal ar y gweill ac rydym yn monitro datblygiadau. Rydym yn credu bod achos cryf dros ddefnyddio'r sbectrwm presennol i ddarparu 6G ac rydym hefyd yn edrych ar amleddau uchel iawn fel y sbectrwm THz fel ffin newydd ar gyfer 6G.9 Wrth i ni fwrw ymlaen â'n gwaith ar sbectrwm a rhwydweithiau symudol, byddwn yn ystyried y safbwyntiau a nodir uchod.
- A1.149 Agorodd Ofcom fynediad at sbectrwm lleol a rennir yn 2019 ac mae'n parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall sut mae eu gofynion yn esblygu. Mae ein strategaeth rheoli sbectrwm wedi nodi bod mynediad ac arloesedd lleol yn feysydd allweddol lle bydd mwy o ffocws.
- A1.150 Rydym yn cydnabod ei bod yn ddymunol annog buddsoddiad ac arloesedd yn rhwydweithiau'r DU er budd defnyddwyr, a byddwn yn parhau i ystyried y ffactorau hyn ochr yn ochr â'n dyletswyddau eraill wrth i ni ystyried ALFs mewn bandiau perthnasol. Rydym yn cytuno â phwyslais Vodafone ar bwysigrwydd mecanweithiau marchnad i ganiatáu masnach; ac ar bwysigrwydd rhannu sbectrwm, a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r rhain. Nid yw lefel y derbyniadau mewn arwerthiant yn ystyriaeth berthnasol wrth ddylunio dyfarniadau.
- A1.151 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebiadau di-wifr i'r cyfleustodau. Wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer galluogi defnydd newydd o'r 26 GHz a ragwelir drwy benderfyniadau cysoni rhyngwladol, byddwn yn cadw llygad ar bosibilrwydd cydfodolaeth gyda rhai defnyddiau presennol.

Band 6 GHz Uwch

- A1.152 Mynegodd Vodafone, BT, Nokia, Huawei a'r Gynghrair Wi-Fi i gyd bryderon ynghylch caniatáu gweithrediadau yn y band 6GHz uchaf, gan nodi bod unrhyw gamau gweithredu yma yn gynamserol o ystyried bod cysoni rhyngwladol ar gyfer defnydd symudol yn cael ei ystyried o dan Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC-23) ac mae astudiaethau cydfodolaeth paratoadol eisoes ar waith. Mae BT hefyd yn mynegi pryder ymhellach nad yw amseriad arfaethedig Ofcom ar gyfer datganiad ar y defnydd trwyddedig o'r band 6GHz Uwch yn ymddangos fel petai'n caniatáu digon o amser ar gyfer ymgynghori.
- A1.153 Gofynnodd Apple i Ofcom ddadlau nad oes angen adnabod unrhyw Delegyfathrebiadau Symudol Rhyngwladol (IMT) yn y band 6 GHz o dan Agenda WRC-23.
- A1.154 Gofynnodd y Gynghrair Wi-Fi i Ofcom ystyried, hyd yn oed os yw WRC-23 yn dynodi'r band 6425-7125 MHz ar gyfer IMT mewn rhai gwledydd, y bydd angen cryn amser (hy

⁸ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/232082/mobile-spectrum-demand-discussion-paper.pdf

⁹ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0032/228929/terahertz-spectrum-paper.pdf

blynyddoedd) a buddsoddiadau (hy biliynau o bunnoedd) i ddatblygu, gweithredu a defnyddio rhwydweithiau band eang masnachol yn y band 6 GHz, tra bo'r dechnoleg Wi-Fi ddiweddaraf (Wi-Fi 6E) sy'n gweithredu yn y band 5.925-7.125 GHz eisoes ar y farchnad, gan alluogi manteision enfawr o ran cysylltedd.

- A1.155 Roedd Apple, Broadcom, Cisco, HP, Intel, Meta, Microsoft yn argymhell yn eu cyflwyniad ar y cyd bod Ofcom yn sicrhau bod y band 6 GHz uchaf (6425-7125 MHz) ar gael i'w ddefnyddio heb drwydded. Roeddent yn tynnu sylw at y ffaith y byddai sbectrwm ychwanegol heb drwydded nid yn unig o fudd i ddefnyddwyr ond byddai hefyd yn fudd mawr iawn i fusnesau o bob maint, o fusnesau bach a chanolig i gorfforaethau mawr. Y band 6425-7125 MHz yw'r unig ddarn o sbectrwm a allai gael ei ddefnyddio'n rhesymol gan RLAN sydd wedi'i esemptio o drwydded. Wrth i Ofcom ystyried ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer Systemau Mynediad Di-wifr (WAS)/RLAN mewn 6 GHz, yr amcan yn y pen draw ddylai fod ecosystem gynaliadwy a chadarn ar gyfer Wi-Fi a dyfeisiau WAS/RLAN eraill drwy'r band 6 GHz.
- A1.156 Roedd y cyflwyniad ar y cyd hefyd yn mynegi pryderon ynghylch ystyriaethau ar gyfer rhannu'r band 6425-7125 MHz, neu rannau ohono rhwng technolegau trwyddedig a thechnolegau sydd wedi'u hesemptio o drwydded. Un o'r materion a welwn yw, er mwyn osgoi ymyriant rhwng systemau sy'n defnyddio gwahanol dechnolegau, efallai bydd angen pellteroedd gwahanu cymharol fawr a allai arwain at ddefnydd aneffeithlon iawn o sbectrwm.
- A1.157 Nododd Apple yn ei gyflwyniad ei fod yn cefnogi sicrhau bod 5925-7125 MHz ar gael ar gyfer Systemau Mynediad Di-wifr / Rhwydweithiau Ardal Leol Radio (WAS/RLAN) Dan Do Pŵer Isel (LPI) a WAS/RLAN dan do / awyr agored symudol Pŵer Isel iawn gan gynnwys Sbectrwm Lledaenu Neidio Amledd (FHSS) ar sail esemptiad trwydded. Os yw Cydlynu Amledd Awtomatig (AFC)/Gwasanaeth Radio Band Eang Dinasyddion (CBRS)/trwyddedu ysgafn yn cael ei ystyried ar gyfer 6425-7125 MHz, rydym yn argymhell mai dim ond ar gyfer WAS/RLAN pŵer uwch y dylai fod yn berthnasol, ond gan alluogi, heb gyfyngiadau ychwanegol, Pŵer Isel Dan Do (LPI) ac WAS/RLAN dan do/awyr agored symudol Pŵer Isel iawn ar sail esemptiad trwydded. Ar gyfer y cyfan neu ran o'r ystod 5925-7125 MHz, mae Apple yn credu na ddylai offer defnyddwyr na dyfeisiau cleientiaid fod yn destun trwyddedu ysgafn na chofrestru.
- A1.158 Mae'r DSA yn credu mai'r ffordd fwyaf effeithlon o ddefnyddio'r band 6425-7125 MHz yw drwy ei agor i'w ddefnyddio heb drwydded. Y band 6425-7125 MHz yw'r unig ddarn o sbectrwm a allai gael ei ddefnyddio'n rhesymol gan RLAN sydd wedi'i esemptio o drwydded. Pe bai'r band hwn yn cael ei nodi a'i ddyrannu yn y pen draw i'r IMT, fel y rhagwelwyd yn WRC-23 AI 1.2, ni fyddai sbectrwm ar gael ar gyfer RLAN pan fydd ei angen. Fel arfer, sefydlir y cysylltiad terfynol rhwng y rhwydwaith mynediad a'r defnyddiwr ('cysylltiad lleol') drwy Wi-Fi. Er mwyn i ddefnyddwyr allu mwynhau manteision rhwydweithiau mynediad gigabit yn y dyfodol, rhaid darparu digon o adnoddau ar gyfer y cyswllt terfynol hwn, hy rhaid iddo allu defnyddio swm digon mawr o sbectrwm. Er mwyn cau'r bwch sy'n weddill, mae'r DSA yn argymhell bod Ofcom hefyd yn sicrhau bod y band 6GHz uchaf (6425-7125 MHz) ar gael i'w ddefnyddio heb drwydded.

- A1.159 Roedd y DSA hefyd yn mynegi pryder ynghylch ystyriaethau ar gyfer rhannu'r band 6425-7125MHz rhwng technolegau trwyddedig a thechnolegau sydd wedi'u hesemptio o drwydded. Un o'r materion a welir yw, er mwyn osgoi ymyriant rhwng systemau sy'n defnyddio gwahanol dechnolegau, efallai bydd angen pellteroedd gwahanu cymharol fawr a allai arwain at ddefnydd aneffeithlon iawn o sbectrwm.
- A1.160 Nododd Ericsson ei fod yn benderfyniad hollbwysig i sicrhau bod y sbectrwm 6GHz yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon gan ei fod yn cynrychioli'r un bloc mwyaf sy'n weddill o sbectrwm band canol y gellir ei ddyrannu ar gyfer achosion defnyddio 5G. Wrth ystyried opsiynau ar gyfer neilltuo 6GHz, mae hefyd yn allweddol ystyried cyflenwad a galw gwasanaethau symudol ac RLAN, a lle bydd y dyraniad sbectrwm yn galluogi darparu cysylltedd ac arloesedd o ansawdd uchel yn yr economi ehangach.
- A1.161 Argymhellodd Huawei y dylai Ofcom lansio ymgynghoriad ar y 6GHz uchaf, gan roi sylw i nifer o opsiynau eraill, gan gynnwys nid yn unig offer dan do pŵer isel trwyddedig fel Wi-Fi, ond hefyd rhwydweithiau symudol 5G macro-gellog, a'i nod yw cyhoeddi datganiad yn 2024 yn rhoi cyfrif am ganlyniadau astudiaethau rhyngwladol yng Nghynhadledd Radio'r Byd yn 2023.

Ein hymateb

- A1.162 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, un o'r pethau y mae'n rhaid i Ofcom ei wneud yw sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl i'w ddefnyddio gan delegraffiaeth ddi-wifr. Rydym yn awdurdodi mynediad i sbectrwm o dan gyfundrefnau trwyddedu ac esemptiad trwydded. Yn 2019 roeddem wedi agor mynediad i 500MHz ychwanegol o sbectrwm o dan esemptiad trwydded ac rydym hefyd wedi agor mynediad ar gyfer defnydd wedi'i esemptio o drwydded yn 57-71GHz, yn ogystal â sbectrwm sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer WLAN ac SRDs. Mae ein papur trafod ar Rwydweithiau Symudol a Sbectrwm, Diwallu'r galw am ddata symudol yn y dyfodol¹⁰, yn nodi ein syniadau cychwynol ar gyfer y galw am wasanaethau symudol yn y dyfodol a sut gallai fod angen i rwydweithiau symudol esblygu i ateb y galw hwnnw. Mae wedi ystyried y rôl y gallai technolegau RLAN ei chwarae o ran diwallu'r galw am gysylltedd yn y dyfodol ac rydym yn parhau i fonitro sut mae'r galw yn y farchnad yn esblygu, gan gynnw ei niwtraliaeth technoleg ar yr un pryd.
- A1.163 Gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad¹¹ ar ein cynigion ar gyfer defnydd trwyddedig o'r band 6GHz uchaf ar sail leol, pŵer isel dan do yn unig ar 28 Chwefror. Rydym wedi dylunio ein cynigion mewn ffordd nad yw'n lleihau ein gallu i awdurdodi defnydd symudol yn y dyfodol, neu ddefnyddiau posibl eraill fel Wi-Fi sydd wedi'i esemptio o drwydded.
- A1.164 Nodwn ymhellach y safbwyntiau a fynegwyd ar y band 6GHz uchaf a byddwn yn eu hystyried ochr yn ochr ag ymatebion i'n dogfen drafod wrth i ni ddatblygu ein strategaeth ar gyfer sbectrwm symudol yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu nodi ein casgliadau

¹⁰ <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/discussion-paper-meeting-future-demand-for-mobile-data>

¹¹ <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/spectrum-sharing-upper-6-ghz-band>

cychwynnol erbyn diwedd 2022 a bydd hyn yn sail i'n dull gweithredu ar gyfer y band 6 GHz uchaf yn WRC-23.

Wi-Fi

- A1.165 Mewn cyflwyniad ar y cyd, cododd Apple, Broadcom, Cisco, HP, Intel, Meta a Microsoft nifer o sylwadau a phryderon ynghylch dyfodol rheoleiddio Wi-Fi. Yn y cyswllt hwn, maent yn nodi pwysigrwydd argaeledd digon o sbectrwm heb drwydded ar gyfer Wi-Fi, neu RLAN yn gyffredinol ac yn galw ar Ofcom i roi ystyriaeth briodol i'r agwedd bwysig hon yn eu Cynllun Gwaith 2022/23 a'u strategaeth ar gyfer gwireddu cymdeithas gigabit y DU. Codwyd y pwynt hwn yn yr un modd yng nghyflwyniad y DSA.
- A1.166 Yn y cyswllt hwn, nododd y Gynghrair Wi-Fi yn eu cyflwyniad nad yw'r cynnydd o 500 MHz (5925-6425 MHz) yn y sbectrwm sydd ar gael o dan esemptiad trwydded, er bod wir ei angen, yn cynnig digon o led band i gefnogi'r galw cynyddol am Wi-Fi. Felly, mae'r Gynghrair Wi-Fi yn gofyn am ystyried ehangu mynediad heb drwydded (hy Wi-Fi) at fand 6425-7125 MHz yng Nghynllun Gwaith 2022/23, gan y byddai mynediad at lai na'r band cyfan o 5925-7125 MHz (1200 MHz) ar gyfer defnydd wedi'i esemptio o drwydded yn lleihau perfformiad Wi-Fi 6E yn sylweddol o ran oedi a llwytho data.

Ein hymateb

- A1.167 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, un o'r pethau y mae'n rhaid i Ofcom ei wneud yw sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl i'w ddefnyddio gan delegraffiaeth ddi-wifr. Rydym yn awdurdodi mynediad i sbectrwm o dan gyfundrefnau trwyddedu ac eithrio trwydded. Roeddem wedi agor mynediad i 500MHz ychwanegol o sbectrwm o dan esemptiad trwydded yn 2019 ac rydym hefyd wedi agor mynediad ar gyfer defnydd wedi'i esemptio o drwydded yn 57-71GHz, yn ogystal â sbectrwm sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer WLAN ac SRDs.
- A1.168 Mae ein papur trafod¹² ar rwydweithiau symudol a sbectrwm 'Diwallu'r galw am ddata symudol yn y dyfodol' wedi ystyried y rôl y gallai technolegau RLAN ei chwarae o ran diwallu'r galw am gysylltedd yn y dyfodol ac rydym yn parhau i fonitro sut mae'r galw yn y farchnad yn esblygu, gan gynnal ein niwtraliaeth technoleg ar yr un pryd. Yng ngoleuni'r galw sy'n esblygu, rydym yn ymgynghori¹³ ar gynigion i alluogi mynediad i'r 6 GHz uchaf ar sail leol, pŵer isel dan do yn unig. Credwn na fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr presennol nac yn lleihau ein gallu i awdurdodi defnydd yn y dyfodol.
- A1.169 Rydym yn ymwybodol o ddiddordeb y diwydiant mewn defnyddio'r band 6 GHz uchaf ar gyfer Wi-Fi i ddefnyddwyr sydd ag esemptiad trwydded neu ar gyfer rhwydweithiau symudol 5G trwyddedig. Mae gwaith cydnawsedd technegol yn dal i gael ei wneud i sefydlu a allai 5G symudol ac Wi-Fi wedi'i esemptio o drwydded rannu'r band â'i gilydd neu â deiliaid presennol eraill a sut. Rydym yn cymryd rhan weithredol yn y paratoadau

¹² <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/discussion-paper-meeting-future-demand-for-mobile-data>

¹³ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/spectrum-sharing-upper-6-ghz-band>

rhyngwladol ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2023 (WRC-23) a gwaith ar wahân yn CEPT, gan gynnwys gweithgareddau cydnawsedd technegol ar gyfer y band 6 GHz uchaf, a mesur safbwyntiau gan rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y DU. Efallai y bydd rhywfaint o amser cyn y gallwn lunio barn ar y defnyddiau hyn – felly nid ydynt yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn. I gael rhagor o drafodaeth am y Band 6 Ghz uchaf, gweler yr ymateb uchod.

Ymyriant

A1.170 Mynegodd y Cyngor Ewropeaidd Telathrebu Cyfleustodau bryderon ynghylch yr her o fonitro ymyriant mewn oes ddigidol. Maent yn nodi yn eu cyflwyniad bod angen monitro a dadansoddi soffistigedig yn y maes digidol er mwyn penderfynu a yw ffynhonnell y diraddio yn ymyriant allanol neu'n broblemau mewnol. Maent yn pwysleisio rôl bwysig gallu Ofcom o ran monitro ac ymyriant, ac yn nodi ei rôl hanfodol o ran cynnal dibynadwyedd ac effeithlonrwydd cyfathrebiadau radio."

Ein hymateb

A1.171 Nodwn y sylwadau a godwyd gan y Cyngor Ewropeaidd Telathrebu Cyfleustodau yn eu hymateb i ymyriant digidol a byddwn yn parhau i ddatblygu ein gallu ymyriant a monitro wrth i dechnolegau ddatblygu.

Dulliau arloesol o Reoli Sbectrwm

A1.172 Roedd y Gynghrair Wi-Fi yn cefnogi cyflwyno dulliau arloesol o reoli sbectrwm, gan gynnwys cronfeydd data, ond dywedodd y dylai'r dulliau hyn, i'r graddau mwyaf posibl, gael eu cysoni'n rhyngwladol a'u cydbwyso gan nodi cymhlethdod y dyluniad a'r gweithredu. Roeddent yn nodi bod trefn trwyddedu ysgafn sy'n defnyddio cronfa ddata yn dechneg rheoli sbectrwm effeithiol, ond dim ond mewn bandiau amledd penodol ac achosion defnydd. Felly, mae'r Gynghrair Wi-Fi yn cefnogi trefn trwyddedu ysgafn ar gyfer gweithrediadau sydd wedi'u hesemptio o drwydded pŵer uwch yn y band 5925-7125 MHz o dan reolaeth cronfeydd data i reoli mynediad i sbectrwm drwy nodi amleddau a ganiateir mewn lleoliad daearyddol penodol.

A1.173 Awgrymodd Apple fod angen ystyried yn ofalus unrhyw ddulliau arloesol o reoli sbectrwm, gan gynnwys trwyddedu ysgafn o bosibl gan ddefnyddio cronfeydd data, a'u cysoni'n fyd-eang i'r graddau mwyaf posibl; a nodi'n gytbwys pa mor gymhleth yw'r gwaith o ddylunio a gweithredu cronfeydd data.

A1.174 Yn eu cyflwyniad ar y cyd roedd Apple, Broadcom, Cisco, HP, Intel, Meta, a Microsoft yn croesawu menter Ofcom i ystyried technegau arloesol o rannu sbectrwm. Maent yn credu y gellir defnyddio systemau fel AFC yn effeithlon iawn i alluogi RLAN pŵer safonol heb drwydded i rannu band â defnyddwyr presennol. O ystyried cymhlethdod ychwanegol systemau cronfa ddata, dylid ystyried eu cais yn ofalus a'i gyfyngu i RLANs pŵer safonol yn unig. Maent yn nodi bod RLANs pŵer isel dan do (LPI) a Phŵer Isel Iawn, er enghraifft, yn

gallu cydfodoli â defnyddwyr eraill ar y cyfan ac felly nid oes angen cydlynu drwy gronfa ddata.

- A1.175 Croesawodd y DSA fenter Ofcom i ystyried technegau arloesol i rannu sbectrwm ac mae'n credu y gellir defnyddio systemau fel AFC yn effeithlon iawn i alluogi RLAN pŵer safonol heb drwydded i rannu band â defnyddwyr presennol, yn enwedig mewn lleoliadau yn yr awyr agored. Ailadroddodd y DSA ymhellach ei gefnogaeth i awtomeiddio'r broses ar gyfer Trwyddedau Mynediad a Rennir.
- A1.176 Roedd cyflwyniad gan unigolyn yn mynegi ei gefnogaeth i gronfeydd data sbectrwm, gan nodi y byddai ymestyn hyn yn cyflymu dyraniadau, ar yr amod bod opsiwn dynol ar gyfer dyraniadau nad ydynt efallai'n ffitio'n llawn o fewn ffurfweddiad y gronfa ddata.

Ein hymateb

- A1.177 Rydym yn parhau i geisio gwella ein prosesau trwyddedu, a bydd ein rhaglen Esblygiad Llwyfan Trwydded yn darparu llwyfan trwyddedu yn y cwmwl i ddisodli'r hen systemau. Bydd hyn yn cefnogi mwy o effeithlonrwydd yn ein prosesau trwyddedu, gan gynnwys mynediad ar-lein a rheoli trwyddedu hunan-wasanaeth ar gyfer ein rhanddeiliaid hy 'awtomeiddio i'r trwyddedai'.
- A1.178 Byddwn yn edrych yn fanwl ar fodelau rheoli sbectrwm newydd ac arloesol, gan gynnwys rôl a phriodoldeb cronfeydd data mynediad sbectrwm deinamig (DSA) mewn gwahanol fframweithiau awdurdodi. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysoni nid yn unig ar gyfer technoleg ond hefyd ar gyfer egwyddor DSA lle mae gwledydd eraill hefyd yn cyflwyno modelau rheoli sbectrwm deinamig i greu darvoudion maint. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn uniongyrchol ar hyn yn y flwyddyn i ddod.
- A1.179 Rydym yn ystyried rhagor o fynediad wedi'i awtomeiddio i sbectrwm a rennir ac rydym yn parhau i fonitro'r galw am fynediad mwy lleol at sbectrwm. Mae mynediad lleol wedi cael ei nodi fel un o'r prif feysydd lle mae mwy o ffocws yn ein strategaeth rheoli sbectrwm.

Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

- A1.180 Cododd nifer o gyflwyniadau, gan gynnwys y rheini gan grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain (BEIRG) a Shure, bryderon am y diffyg trafod ynghylch PMSE yn y Cynllun Gwaith.
- A1.181 Dywedodd BEIRG ei fod yn credu ei bod yn hanfodol bod Ofcom yn dangos ymrwymiad cadarn i barhau i weithio gyda'r gymuned PMSE, a fydd yn ei dro yn rhoi'r hyder i weithgynhyrchwyr fuddsoddi yn natblygiad technoleg yn y dyfodol. O ran rhannu sbectrwm, parhaodd BEIRG i annog Ofcom i fabwysiadu dull gweithredu cyfannol sy'n ystyried anghenion y gymuned PMSE. Dywedodd BEIRG y gallai gwasgu rhagor ar y sector wneud niwed difrifol i'w allu i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel.
- A1.182 Nododd BEIRG ymhellach fod clirio'r bandiau 800 MHz a 700 MHz eisoes wedi tarfu'n sylweddol ar y sector PMSE ac er gwaethaf cefnogaeth ariannol y Llywodraeth, mae wedi cael effaith negyddol ar y diwydiant dros y 10 mlynedd diwethaf ac mae pryder y bydd rhaglen glirio arall.

- A1.183 Nododd Shure ei bod yn hanfodol cydnabod arwyddocâd byd-eang a gwerth cymdeithasol ac economaidd PMSE ac ymdrechion y diwydiant PMSE i wella effeithlonrwydd sbectrwm i liniaru'r colledion. Dylai mynediad parhaus at sbectrwm ar gyfer PMSE, yn enwedig yn yr ystod 470-694 MHz, fod yn brif flaenoriaeth i Ofcom.
- A1.184 Nododd cyflwyniad gan unigolyn bwysigrwydd posibl WRC-23 ar gyfer PMSE ac mae angen dull gweithredu llawer mwy rhagweithiol gan Ofcom i sicrhau mynediad parhaus at ystod tiwnio 470-694 MHz ar sail Rhanbarth 1 yn y dyfodol agos a'r dyfodol pell.
- A1.185 Mae BEIRG hefyd yn annog Ofcom i sicrhau nad yw technoleg a sbectrwm Telathrebu Di-wifr Digidol Uwch (DECT) yn cael eu defnyddio ar gyfer "ffonau mam-gu" yn unig sydd erbyn hyn gael eu hysgubo o'r neilltu o blaid technolegau mwy newydd. Byddai colli neu erydu'r sbectrwm DECT penodol sydd wedi'i esemptio o drwydded yn niweidiol i PMSE.

Ein hymateb

- A1.186 Rydym yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd y sector PMSE a'i gyfraniad at yr economi greadigol a bywyd diwylliannol y DU. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector PMSE ynghylch unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.
- A1.187 Rydym yn ymwybodol o effaith clirio bandiau sbectrwm ar y sector PMSE, yn fwyaf diweddar y band 700 MHz. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd sicrwydd deiliadaeth i'r sector PMSE, mae'r defnydd o sbectrwm yn newid dros amser ac mae gan Ofcom ddyletswydd gyffredinol o ran sbectrwm. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn golygu ei bod yn rhaid i ni ystyried gwahanol anghenion a buddiannau, o ran defnyddio'r sbectrwm electromagnetig ar gyfer telegraffi di-wifr, pawb a all fod yn dymuno'i ddefnyddio. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'n holl benderfyniadau rheoli sbectrwm.
- A1.188 Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i newid statws rheoleiddio'r band DECT (1880 – 1900 MHz). Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y band hwnnw i bawb sy'n defnyddio offer sy'n bodloni'r Rheoliadau Esemptiad rhag Trwyddedau sy'n berthnasol i'r band.
- A1.189 Mae ein Cynllun Gwaith yn sôn am ein gwaith rhyngwladol gyda diwydiannau a gweinyddwyr cenedlaethol eraill i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hadlewyrchu a'u diogelu'n briodol mewn trafodaethau a phenderfyniadau rhyngwladol ynghylch sbectrwm. Mae ein gwaith rhyngwladol mewn perthynas â chwestiynau polisi sy'n effeithio ar y sector PMSE (er enghraifft, yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT) ac ITU-R) wedi'i gynnwys yn hynny.
- A1.190 Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i newid statws rheoleiddio'r band DECT (1880 – 1900 MHz). Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y band hwnnw i bawb sy'n defnyddio offer sy'n bodloni'r Rheoliadau Esemptiad rhag Trwyddedau sy'n berthnasol i'r band.

Dyfeisiau Mwyhau ar gyfer Ffonau Symudol

- A1.191 Nododd cyflwyniad gan unigolyn bwysigrwydd gwaith Ofcom ar ddyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol yn 2021 a chododd nifer o heriau sy'n dal i fodoli o ran eu defnyddio ar gychod.

Ein hymateb

A1.192 Nodwn y sylwadau a godwyd mewn perthynas â dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol i'w defnyddio ar gychod, a byddwn yn ystyried y sylwadau hyn mewn unrhyw waith pellach a wnawn ar ddyfeisiau mwyhau.

Cefnogi a datblygu'r Cyfryngau yn y Deyrnas Unedig

Ymgysylltu â'r gynulleidfa

A1.193 Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai Ofcom sicrhau digon o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori â'r gynulleidfa ar draws y DU. Dadleuodd fod y prosesau hyn yn hanfodol ar gyfer amlygu gwahaniaethau allweddol rhwng cynulleidfaoedd, er enghraifft pwysigrwydd y Gymraeg i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru.

Ein hymateb

A1.194 Ar hyn o bryd rydym yn ceisio ymgysylltu ar draws y DU i ddeall y gwahaniaethau mewn cynulleidfaoedd, fel y dangoswyd yn yr ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, lle tynnwyd sylw at bwysigrwydd darlledu yn ieithoedd lleiafrifol cynhenid y DU. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar draws y DU ynghylch pwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol ac yn cefnogi gwaith y sefydliadau hynny sy'n darlledu mewn ieithoedd cynhenid.

Amrywiaeth a chynhwysiant ym maes darlledu

- A1.195 Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector darlledu.
- A1.196 Croesawodd Llywodraeth Cymru ffocws Ofcom ar amrywiaeth ym maes darlledu a mynegodd ei pharodrwydd i gydweithio ag Ofcom er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn.
- A1.197 Mynegodd ACE bryder ynghylch cyfansoddiad demograffig gweithwyr yn y sector cyfryngau nad yw, yn ei farn ef, yn cynrychioli poblogaeth ehangach y DU. Roedd yn galw ar Ofcom i graffu mwy ar ddarlledwyr radio a theledu lleol yn ogystal â'r BBC mewn perthynas ag amrywiaeth o ran rhaglenni a staffio.
- A1.198 Roedd y cyflwyniad gan Better Media yn canolbwyntio ar rwymedigaethau Ofcom o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dadleuodd y dylai'r rhwymedigaethau hyn gael lle amlycach yn y Cynllun Gwaith ac yn arferion rheoleiddio Ofcom yn ehangach er mwyn diogelu a hyrwyddo ei amcanion yn well.
- A1.199 Dull Ofcom o gasglu data amrywiaeth oedd ffocws cyflwyniad NADP. Maent yn awgrymu bod Ofcom yn ailddiffinio sut mae'n defnyddio terminoleg ar gyfer pobl ag anabledau ac yn symud ei ddull cysniadol oddi wrth nam a thuag at allu.
- A1.200 Mae'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol yn gofyn i Ofcom ystyried ehangu ymchwil i gynnwys y gymuned Affro-Caribiaidd, gan nodi nad oeddent wedi'u cynnwys yn adroddiad Ofcom "Disgwyliadau darlledu cynulleidfaoedd o leiafrifoedd ethnig" a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2021. Mae hefyd yn datgan bod y dewis o orsafoedd yr ymgynghorwyd â nhw braidd yn gyfyngedig o fewn y grwpiau ethnig a dargedwyd. Mae hefyd yn awgrymu bod Ofcom yn cynnal astudiaeth i ganfod pam mae'n ymddangos bod y gymuned Affro-Caribiaidd wedi'i thangynrychioli gymaint ar lwyfannau cyfryngau yn y DU.

A1.201 Dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n ddefnyddiol deall cynlluniau penodol Ofcom ar gyfer gwella amrywiaeth y sector creadigol yn yr Alban drwy 2022/23.

Ein hymateb

- A1.202 Yn ein hadolygiad pum mlynedd o amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes darlledu yn y DU, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, roeddem wedi tynnu sylw at y ffaith ein bod am weld darlledwyr yn casglu ac yn rhannu data amrywiaeth yn wirfoddol yn ôl lleoliad daearyddol. Roeddem hefyd yn cynnig y dylai pob darlledwr ystyried gosod targedau cynhwysiant eu hunain a pharhau i argymhell targedau amrywiaeth heriol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein hadroddiadau amrywiaeth blynyddol i ddal darlledwyr i gyfrif. Ar ben hynny, rydym hefyd yn craffu ar berfformiad y BBC o ran sicrhau amrywiaeth yn ei ddata am y gweithlu ac yn ei gynnwys - gan ddefnyddio bodlonrwydd cynulleidfaoedd o ran sut mae cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn cael eu cynrychioli a'u portreadu a data cwota ar newyddion rhanbarthol, materion cyfoes rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol heb fod yn newyddion.
- A1.203 Yng ngwanwyn 2022 byddwn yn cyhoeddi Cais am Fewnbwn ar ddiweddariadau yr hoffem eu gwneud ar gwmpas y data amrywiaeth mewn darlledu rydym yn ei gasglu drwy'r arolwg rydym yn ei anfon at ddarlledwyr bob blwyddyn. Un o'r diweddariadau rydym yn bwriadu ei wneud yw data amrywiaeth cenedlaethol a rhanbarthol, y gallem ofyn amdano gan ddarlledwyr yn wirfoddol. Mae hyn yn cynnwys cynnig bod darlledwyr yn darparu data amrywiaeth ar sail wirfoddol ar eu gweithluoedd ym mhob un o'u hybiau cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol yn ogystal â nodweddion gwarchoddedig. Ein cynllun tymor hirach fyddai adrodd ar y data hwn yn gyhoeddus er mwyn sicrhau mwy o dryloywder i bartïon sydd â diddordeb yn y meysydd hyn. Nid yw'r union ffordd y byddwn yn casglu ac yn meincnodi'r data hwn wedi'i bennu eto – byddem yn croesawu barn ar y pwynt hwn mewn ymateb i'n Cais am Fewnbwn.
- A1.204 Nid yw Ofcom yn credu bod y pwyntiau a godwyd gan Better Media yn gofyn i ni ddiwygio ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, byddwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r ymatebydd gyda'n safbwyntiau yn fuan ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Gwaith.
- A1.205 Byddem yn croesawu ymateb gan NADP i'n cais am fewnbwn ynghylch ein gwaith casglu data amrywiaeth, a fydd yn cynnwys ystyried yr iaith sy'n cael ei defnyddio yng nghyswllt anabledd.
- A1.206 Mae'r ymchwil ar Ddisgwyliadau Darlledu Cynulleidfaoedd o Leiafrifoedd Ethnig yn un o nifer o astudiaethau y mae tîm Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd Ofcom wedi'u cynnal i ddeall disgwyliadau cynulleidfaoedd. Roedd yr adroddiad hwn o natur ansoddol, nid meintiol. Roedd yr ymchwil yn cyfeirio at ddau fater: yn gyntaf, mae rhai cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig yn credu nad yw darlledwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom sy'n targedu eu cymunedau o bosibl yn rhwym wrth yr un rheoliadau â sianeli prif ffrwd y DU. Yn ail, er bod gan y rhan fwyaf o ddarlledwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom sy'n darlledu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig gofnodion cydymffurfio da, mae Ofcom wedi cofnodi rhai o'r achosion mwyaf difrifol o dorri ei reolau niwed a thramgwydd ar ôl darlledu cynnwys ar nifer fach o sianeli a

gorsafoedd sydd wedi'u hanelu at gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Canfuom fod cynulleidfaoedd targed y sianeli hyn yn dod yn bennaf o gefndiroedd Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Du Affricanaidd ac Arabeg. Adeg comisiynu'r ymchwil hwn, nid oedd yr un o'r materion hyn yn berthnasol i sianeli neu orsafoedd a oedd wedi'u hanelu at y gymuned Affro-Caribiaidd.

- A1.207 Mae adroddiadau eraill gan Ofcom a gyhoeddwyd rhwng 2018 a 2021 wedi cynnwys cyfranogwyr Affro-Caribiaidd i ddeall eu barn yn well (ee Cynrychiolaeth a Phortreadu ar Deledu'r BBC¹⁴, Agweddau Cyhoeddus at Iaith Dramgwyddus mewn Teledu a Radio¹⁵, Disgwyliadau Cynulleidfaoedd mewn Byd Digidol¹⁶).
- A1.208 O ran sôn am orsafoedd penodol yn atodiad yr adroddiad, dylem egluro nad yw'r gorsafoedd a nodir yn cynrychioli gwasanaethau yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil, ond rhestr o wasanaethau perthnasol sy'n cael eu rhoi gan Ofcom i'r asiantaeth ymchwil. Yr unig ohebiaeth gyda thrwyddedigion mewn perthynas â'r ymchwil hwn oedd gofyn am ganiatâd i ddefnyddio eu cynnwys a ddarlledwyd yn flaenorol fel deunydd ysgogi posibl.
- A1.209 Byddwn yn parhau i ystyried yn ofalus y meysydd ymchwil mwyaf priodol i ymgymryd â nhw a gweithio i ymgysylltu â chynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig yn y dyfodol, yn enwedig os bydd persbectif a goddefgarwch yn newid dros amser, a byddwn yn ystyried y gwahanol bwyntiau a wnaed gan yr ymatebydd yn y dyfodol.

Trwyddedu radio

- A1.210 Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i rhanddeiliaid, lle bo'n briodol, barhau i wneud newidiadau i drwyddedau radio i sicrhau darlledu perthnasol parhaus. Mae hefyd yn croesawu trwyddedu gwasanaethau digidol DAB graddfa fach newydd ledled y DU a'r gwaith parhaus gyda gorsafoedd radio cymunedol a lleol sy'n darlledu ar drwyddedau analog ac yn egluro y byddai'n awyddus i weithio gydag Ofcom i gynyddu'r cyfleoedd i orsafoedd cymunedol yng Nghymru elwa o'r Gronfa Radio Cymunedol.
- A1.211 Gofynnodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol a Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU (UK CRN), am ddull cyflymach o drwyddedu SSDAB. Ar ben hynny, gofynnodd CRN y DU am gynllun a map wedi'i gyhoeddi ar gyfer y wlad gyfan, gydag amserlenni disgwylidig, er mwyn i orsafoedd gael y wybodaeth ddiweddaraf, a dechrau cynllunio ar gyfer eu dyfodol digidol eu hunain.

Ein hymateb

- A1.212 Mae Ofcom yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol.

¹⁴ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/124078/report-bbc-representation-portrayal.pdf

¹⁵ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/offensive-language>

¹⁶ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/audience-expectations-in-a-digital-world>

A1.213 Rydym yn cyflwyno gwasanaethau DAB graddfa fach mor gyflym ag y mae Ofcom ac adnoddau rhanddeiliaid yn ei ganiatáu. Rydym yn rhoi gwybod ymlaen llaw am y trwyddedau rydym yn bwriadu eu hysbysebu, ond rydym yn credu ei bod hi'n bwysig cadw hyblygrwydd o ran siâp ac amseriad y rowndiau yn y dyfodol.

Y Gronfa Radio Cymunedol

A1.214 Gofynnodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol i Ofcom gefnogi galwad i'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am Gronfa Radio Cymunedol wedi'i gwella'n sylweddol i fynd i'r afael â'r twf mewn trwyddedeion radio cymunedol (gan awgrymu buddsoddiad sylfaenol o £10 miliwn y flwyddyn ar gyfer effaith drawsnewidiol).

Ein hymateb

A1.215 Mae Ofcom yn nodi cefnogaeth yr ymatebydd o ran dyfodol y Gronfa Radio Cymunedol. Mae Ofcom yn fodlon bod yn rhan o unrhyw sgwrs yn y dyfodol ynghylch gwelliannau i'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y sector Radio Cymunedol.

Y BBC

A1.216 Anogodd yr ACS Ofcom i fonitro uchelgais y BBC, a amlinellir yng Nghynllun Blynyddol eleni, i 'gynyddu gweithgarwch, amlygrwydd a phwerau pwyllgorau Byrddau'r BBC ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon'.

A1.217 Ailadroddodd Pwyllgor Cyngori Cymru ei ymateb i ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr Ofcom, gan nodi'r angen i greu amgylchedd rheoleiddio ar gyfer BBC Cymru Wales a fyddai'n rhoi cyfle i'r BBC gael trosolwg mwy cyfannol o'i allbwn. Maent yn edrych ymlaen at ymgysylltu ymhellach â thîm prosiect Ofcom i weld a oes mwy o ddewisiadau creadigol ar gael ar gyfer fframio gofynion nad ydynt yn rhai newyddion drwy roi mwy o bwyslais ar ofynion adrodd manylach yn hytrach na bodloni cwotâu allbwn sy'n seiliedig ar oriau.

A1.218 Nododd y PPA eu bod yn teimlo mai un o'r prif broblemau gyda'r Prawf Materoldeb / Prawf Budd y Cyhoedd / proses Asesiad Cystadleuaeth Ofcom y BBC (BCA) ar hyn o bryd, yw ei fod yn caniatáu i'r BBC ddylunio newidiadau graddol i'w wasanaethau nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon perthnasedd, gan osgoi craffu. Mae'n ailadrodd ei ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar reoleiddio'r BBC yn 2021 er mwyn ystyried cyfyngu ar ba mor aml y gall y BBC gynnig newidiadau ac ystyried rhoi proses ymgynghori ffurfiol ar waith ar gyfer pob newid y mae'r BBC yn ei gynnig sy'n cyfiawnhau asesiad o fateroldeb, gan roi cyfle i rhanddeiliaid ymgysylltu'n llawn â'r broses.

A1.219 Teimlai WaveLength y byddai'n well cymryd y ffi drwydded arfaethedig a'r cyllid ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar bwynt trethu na'r ffordd y caiff ei weinyddu ar hyn o bryd. Roeddent yn mynegi pryder y bydd y cyhoeddiad i rewi ffi'r drwydded am ddwy flynedd yn golygu y bydd y BBC yn cael ei ruthro i arbed costau, a fydd yn arwain at doriadau mewn gwasanaethau neu newidiadau brys a allai arwain at ynysu ac unigrwydd i ddinasyddion y DU. Nododd WaveLength fod angen egluro pa wasanaethau fydd yn cael eu dirwyn i ben ymhell cyn i newidiadau o'r fath gael eu rhoi ar waith ac mae angen ystyried

effaith y newidiadau hyn hefyd, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn colli gwasanaethau pwysig maen nhw'n dibynnu arnyn nhw.

A1.220 Nododd Llywodraeth Cymru y bydd yn gweithio gydag Ofcom ar faterion yn ymwneud ag adolygiad canol tymor Siarter y BBC yn 2023, yn benodol yng nghyswllt gofynion ei wasanaethau i bob rhan o'r DU a'r goblygiadau i Gymru. Er nad yw cyllido'r BBC yn fater i Ofcom, maent yn nodi y bydd angen ystyried unrhyw waith sy'n ymwneud â rheoleiddio'r BBC nawr ac yn y dyfodol ac S4C yng nghyd-destun cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU ar y setliad cyllido a dyfodol ffi'r drwydded deledu, o ystyried ei heffaith.

Ein hymateb

A1.221 Byddwn yn ceisio ymgysylltu'n gadarnhaol â chyrrff gweithredol a llywodraethu'r BBC ledled y DU yn y flwyddyn i ddod, gan gynnwys i ddeall unrhyw newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau yng ngoleuni'r setliad ariannol diweddar. Edrychwn ymlaen at weithio gydag aelod newydd Bwrdd y BBC ar ran yr Alban wrth iddi ymgymryd â'i rôl fel Cadeirydd Pwyllgor BBC Scotland.

A1.222 Byddwn yn ystyried sut mae galluogi'r BBC yn well i ymateb i newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd, heriau cystadleuol a phwysau ariannol fel rhan o'n hadolygiad o reoleiddio'r BBC, gan gynnwys ein hadolygiad o Drwydded Weithredu'r BBC. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried yn benodol y ffordd orau o sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cynnwys gwerthfawr ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ac i sicrhau bod ein gwaith o reoleiddio'r BBC yn effeithiol ac yn addas i'r diben ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter.

A1.223 Byddwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan randdeiliaid yn ein hadolygiad. Byddwn hefyd yn nodi unrhyw argymhellion i'r llywodraeth eu hystyried fel rhan o'i Hadolygiad Canol Tymor o Siarter a Chytundeb y BBC a'n cynigion ar gyfer diweddarau ein gwaith rheoleiddio ar y BBC

Darlledu mewn Gaeleg

A1.224 Croesawodd MG ALBA y sicrwydd cyllido y mae setliad Ffi Trwydded y BBC 2022 wedi'i ddarparu ar gyfer gwasanaeth teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg S4C, ac mae'n gofyn i Ofcom gynnwys yn ei Gynllun Gwaith ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaeth teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus Gaeleg yn cael ei drin gyda'r un ystyriaeth.

A1.225 Byddai Llywodraeth yr Alban yn croesawu cyfeiriad ehangach at Aeleg i helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd a welir weithiau yn yr ystyriaeth a roddir i'r Aeleg a'r Gymraeg. Nodir bod ymrwymiad i annog a chefnogi MG ALBA a'r BBC i gymryd camau a chynllunio camau gweithredu y gallai fod angen iddynt eu cymryd i ymateb i heriau strategol darlledu Gaeleg a symud ymlaen gyda hynny.

Ein hymateb

A1.226 Bydd Ofcom yn parhau i asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, gan gynnwys y rôl mae BBC ALBA yn ei chwarae o ran cynrychioli a

phortreadu cynulleidfaoedd yn yr Alban. Fodd bynnag, mae Cytundeb y BBC yn nodi'n glir mai Bwrdd y BBC sy'n penderfynu ar gyllid a phenderfyniadau strategol ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus, ac mai mater i Lywodraeth yr Alban yw cyllid craidd MG ALBA.

- A1.227 Rydym yn croesawu ymrwymiad MG ALBA a'r BBC i foderneiddio'r cytundeb partneriaeth rhyngddynt ac rydym yn gobeithio y bydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r heriau y mae MG ALBA wedi tynnu sylw atynt yn Lèirsinn 2021. Byddwn yn cynnwys y sylw hwn yn ein Cynllun Gwaith terfynol ar gyfer 2022/23.

Trefn gwyno

- A1.228 Gofynnodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol i Ofcom ystyried cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau cwyno ar gyfer gwasanaethau darlledu. Mae'r drefn gwyno bresennol yn ddiennw ac felly mae achwynwyr sydd ag agenda blinderus yn debygol o fynd â chwyn yn uniongyrchol ac yn ddiennw i Ofcom. Gallai dileu'r elfen o fod yn ddiennw sy'n amddiffyn achwynwyr helpu i leihau nifer yr achosion o gwynion blinderus. Ar ben hynny, dylai'r sawl sy'n cwyno ddangos ymdrechion rhesymol i ddatrys anghydfod gyda'r darlledwr yn gyntaf cyn ymgysylltu ag Ofcom ynghylch ei gŵyn.

Ein hymateb

- A1.229 Mae Gweithdrefnau Cyffredinol Ofcom yn nodi: "Gall unrhyw berson neu gorff gyflwyno cwynion o dan y Gweithdrefnau Cyffredinol hyn wrth Ofcom os ydynt yn ystyried nad yw darlledwr wedi cydymffurfio â gofyniad perthnasol. Oni bai fod y sawl sy'n cwyno'n gofyn i Ofcom beidio â gwneud hynny, caiff Ofcom ddatgelu pwy ydy'r sawl sy'n cwyno i'r darlledwr sy'n destun i'r gŵyn yn ogystal â rhannu fersiwn nad yw'n gyfrinachol o'r gŵyn a gyflwynwyd er mwyn cael sylwadau. Bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau gan bobl sy'n cwyno sy'n dymuno aros yn ddiennw. Serch hynny, efallai na fydd yn bosibl agor neu gynnal ymchwiliad heb ddatgelu pwy ydy'r sawl sy'n cwyno. Nid yw hyn yn berthnasol i chwythwyr chwiban."
- A1.230 Mae'n rhaid i drwyddedeion gydymffurfio ag amodau eu trwydded(au) bob amser. Pan fydd rhywun o'r farn nad yw gwasanaeth yn cydymffurfio â thelerau ei drwydded, mae croeso iddo godi ei bryderon gydag Ofcom, yn ogystal â gyda'r darlledwr yn uniongyrchol. Bydd asesiad Ofcom o gŵyn – a'r ymchwiliad dilynol, lle bo hynny'n briodol – yn cael ei gynnal yn unol â'r Gweithdrefnau Cyffredinol, ni waeth beth yw tarddiad y gŵyn.

Plwraliaeth y Cyfryngau

- A1.231 Nododd y PPA nifer o bryderon ynghylch rheoleiddio plwraliaeth posibl yn y cyfryngau yng ngoleuni'r berthynas rhwng llwyfannau/cyhoeddwyr, gan gynnwys yr angen i ganolbwyntio ar y rôl y mae cyhoeddiadau arbenigol yn ei chwarae, mynd i'r afael â defnyddio algorithmau mewn ffordd nad yw'n dryloyw a hybu'r gwaith o hyrwyddo cynnwys gwreiddiol.
- A1.232 Mae Pwyllgor Cynghori Cymru (ACW) Ofcom yn nodi bod plwraliaeth cyflenwad mewn newyddion yn dal yn fater allweddol ac mae'n hanfodol bod ITV Cymru Wales a BBC Cymru

Wales yn parhau i ddarparu gwasanaethau newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr i wylwyr ac i wrandawyr yng Nghymru. Felly, bydd yn ceisio ymgysylltu ag Ofcom ar gyfer aildrwyddedu gwasanaeth Sianel 3 i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â'r adroddiad y bydd Ofcom yn ei lunio i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Mehefin 2022 ar gynaliadwyedd rhwymedigaethau presennol ITV.

Ein hymateb

- A1.233 Rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagor o ystyriaethau ynghylch rôl cyfryngwyr mewn plwraliaeth yn y cyfryngau yn nes ymlaen eleni a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid am eu tystiolaeth a'u safbwyntiau.
- A1.234 Nodwn safbwynt y Pwyllgor Cynghori ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu ag ef drwy gydol y broses drwyddedu.

Gwasanaethu a diogelu cynulleidfaoedd

Darlledu AM

- A1.235 Roedd nifer o ymatebion gan unigolion wedi sôn am y sbectrwm sydd ar gael yn y band Ton Ganolig ac wedi gofyn am ymgynghoriad â defnyddwyr (posibl) ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r sbectrwm hwn yn y dyfodol, fel Gwasanaethau Darlledu Cymunedol.
- A1.236 Awgrymodd un ymateb cyfrinachol na fydd ehangu lled band sain darlledu AM yn cynyddu lefelau ymyriant ar y band darlledu, ond y bydd yn darparu "estyniad i fywyd" y mae mawr ei angen ar y band AM gan sicrhau hyfywedd darlledwyr trwyddedig "sydd yn aml heb ddull arall o ddarlledu o 2022 ymlaen". Roedden nhw hefyd yn awgrymu y byddai cael gwared ar gyfyngiadau technegol a fyddai'n gwahardd DRM/C-QUAM ar drwyddedau Pŵer Isel AM (LPAM) yn hybu arloesi ar y bandiau amledd hyn ac yn cyd-fynd â rhwymedigaethau Ofcom i ddarparu mynediad i sbectrwm a sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Byddai dileu'r gofyniad am "un safle cyffiniol" a "phoblogaeth breswyl barhaol" o'r drwydded LPAM i greu ystod fer fel rheol 3-5km "trwydded darlledu goleuadau traffig AM", yn golygu bod LPAM 5 mlynedd 1W ar gael "ar alw" yn yr un ffordd ag y byddai trwydded Trwydded Gwasanaeth Cyfyngedig (RSL) neu'r drwydded Rhaglen Sain Ddigidol (DSP) yn ei wneud. Maent hefyd yn argymhell Symleiddio proses dyrannu dechnegol LPAM 1W gan ddefnyddio siart chwilio.
- A1.237 Roedd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol yn cefnogi galwad i ddileu'r cyfyngiadau technegol sy'n gwahardd DRM/C-QUAM ar drwyddedau LPAM er mwyn hyrwyddo datblygiadau newydd ym maes darlledu radio. Dylai newidiadau o'r fath fod yn gyson â rhwymedigaethau Ofcom i ddarparu mynediad at sbectrwm. Felly, maent yn gofyn i Ofcom nodi'r rhannau hynny o'r Cod Peirianeg a allai elwa o gael eu diweddarau.

Ein hymateb

- A1.238 Ychydig o alw sydd am ddefnyddio'r band AM ar hyn o bryd. Yn Adolygiad Sain a Radio Digidol yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, argymhellwyd y dylai darlledwyr symud at ystyried diffodd gwasanaethau o 2025 ymlaen. Rydym yn darparu trwyddedau Arloesi a Phrawf a fyddai'n addas i unrhyw un sy'n ceisio defnyddio'r bandiau AM i brofi technolegau mwy newydd. Mae angen i'r defnydd o'r band barhau i fod wedi'i drwyddedu i atal ymyriant i wasanaethau trwyddedig presennol.
- A1.239 Rydym yn ystyried diweddarau ein cod technegol radio analog a byddwn yn ystyried y sylwadau a wneir yma bryd hynny.
- A1.240 Rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar ar sut byddwn yn trwyddedu RSLs yn y dyfodol. Mae hwn yn nodi ein cynigion i gynyddu'r sbectrwm FM sydd ar gael a symleiddio ein dull o drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig (gan gynnwys y rheini sydd ar AM). Rydym yn nodi, o dan ddeddfwriaeth, mai gwasanaethau cyfyngedig yw'r rheini sy'n cael eu darlledu at ddiben digwyddiad penodol neu sy'n cael eu darlledu i sefydliad penodol neu leoliad arall wedi'i ddiffinio yn y DU. Darparu gwasanaeth gydag ardal ddarlledu ehangach o 3-5km ar gael i'r holl wrandawyr yn yr ardal ddarlledu honno fyddai'n debycach i

wasanaeth radio cymunedol a byddai angen trwydded radio cymunedol. Rydym yn darparu trwyddedau Arloesi a Phrawf a fyddai'n addas i unrhyw un sy'n ceisio defnyddio'r bandiau AM i brofi technolegau mwy newydd.

- A1.241 Hyd yma, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o'r galw gan ddarlledwyr i ddefnyddio'r technolegau hyn yn y bandiau AM. Rydym yn darparu trwyddedau Arloesi a Phrawf a fyddai'n addas i unrhyw un sy'n chwilio am arloesedd o'r fath wrth ddefnyddio'r bandiau AM.

Radio Cymunedol ac IP

- A1.242 Gofynnodd un ymateb cyfrinachol i Ofcom gynnal trwyddedu radio cymunedol analog yn ei ardal.
- A1.243 Nododd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol fod galw sylweddol o hyd am drwyddedau radio cymunedol analog, yn enwedig ar gyfer FM. Mynegodd nifer o ddarpar ddarlledwyr radio cymunedol amheuson ynghylch llwyfan SSDAB ac am ba mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros i wneud cais am drwydded os na fydd Ofcom yn ystyried rowndiau pellach o drwyddedu radio cymunedol analog ar gyfer y dyfodol agos. Mae'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol yn cynghori Ofcom i beidio â rhoi'r gorau'n rhy gynnar i'w allu i roi trwyddedau FM ychwanegol i ddarpar ddarlledwyr ar lawr gwlad, ac mae'n awgrymu bod Ofcom yn ailddatgan ei safbwynt blaenorol y bydd yn ystyried trwyddedu radio analog dim ond ar gyfer yr ardaloedd hynny sy'n bodloni set o feini prawf eithriadol iawn – ac i egluro natur yr hyn y gallai'r meini prawf trwyddedu hynny fod.
- A1.244 Gofynnodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol hefyd i Ofcom ystyried cynnal adolygiad i sicrhau y bydd radio cymunedol ar gael yn rhwydd ar ddyfeisiau seinydd clyfar yn y dyfodol.
- A1.245 Gofynnodd cyflwyniad cyfrinachol i Ofcom ddechrau trafodaethau a chynlluniau gwaith i ystyried effaith hirdymor radio IP, pa gymorth rheoleiddio y gallai fod ei angen a pha fframwaith rheoleiddio posibl ar gyfer cynnwys y gallai fod ei angen.

Ein hymateb

- A1.246 Rydym yn deall y dadleuon a wnaed gan rhanddeiliaid radio cymunedol, gan gynnwys y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, bod tystiolaeth bod galw parhaus am drwyddedu radio cymunedol analog yn y DU, ac y dylai Ofcom felly wahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol. Nid oes gan Ofcom yr adnoddau i wneud yr holl waith trwyddedu y mae tystiolaeth o alw amdano. Mae'n ofynnol iddo wneud gwaith ar draws ei holl ddyletswyddau a swyddogaethau statudol a rhaid iddo wneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethu. Ar hyn o bryd, rydym yn ei hystyried yn fwy priodol yn gyffredinol i flaenoriaethu trwyddedu SSDAB.
- A1.247 Mae'r farchnad radio a sain yn wynebu newid sylweddol, wrth i gynulleidfaoedd fabwysiadu arferion newydd ac wrth i dechnoleg barhau i esblygu'n gyflym. Byddwn yn parhau i fonitro'r newidiadau hyn ac yn gwerthfawrogi dealltwriaeth y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol a rhanddeiliaid eraill o effeithiau'r newidiadau hyn ar

gynulleidfaoedd a’r diwydiant. Byddwn hefyd yn darparu cyngor a chymorth technegol, fel y bo’n briodol, i’r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddynt ystyried unrhyw gamau nesaf o ganlyniad i’r Adolygiad Sain a Radio Digidol.

Sicrhau bod diogelwch ar-lein yn cael ei reoleiddio

Y drefn Diogelwch Ar-lein

- A1.248 Mynegodd yr Ymddiriedolaeth Polisi Gwrth-semitiaeth gefnogaeth i gynlluniau Ofcom i ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol mewn perthynas â chynllunio Diogelwch Ar-lein. Byddai'n hoffi gweld yr ymgysylltu hwn yn ymestyn i drafod y Codau Ymarfer a meysydd eraill y cylch gwaith Diogelwch Ar-lein, yn ogystal â chyfrifoldebau ehangach Ofcom.
- A1.249 Mynegodd Carnegie UK bryderon am yr oedi o ran y Bil Diogelwch Ar-lein¹⁷ a'r angen i'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddarparu eglurder cyn gynted â phosibl mewn perthynas â'r diffiniad o niwed a/neu niwed blaenoriaeth. Roeddent hefyd yn nodi bod y Cynllun Gwaith yn tynnu sylw at yr ymarferion ymgynghori helaeth y bydd yn rhaid i Ofcom eu cynnal ac yn annog Ofcom i gyflwyno'r achos dros roi pwerau palmentu ar waith gan y Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod modd cynnal ymgynghoriadau ar godau, pan fo hynny'n bosibl, ochr yn ochr â phasio'r Bil. Yn ogystal â hyn, nododd cyflwyniad Carnegie UK y dylai mecanweithiau i barhau i ymgysylltu ar ôl pasio'r Bil Diogelwch Ar-lein gael eu dylunio a'u ffurfioli cyn gynted â phosibl er mwyn gallu craffu'n barhaus ar ei effeithiolrwydd. Roeddent hefyd yn nodi'r angen i sicrhau bod llais y defnyddiwr yn rhan o hyn a bod mudiadau cymdeithas sifil yn rhan o'r ymgysylltu hwn.
- A1.250 Nododd Carnegie UK yr angen i gynyddu gwybodaeth am brofiadau gwahanol defnyddwyr gwahanol ar-lein, yn dibynnu ar eu cefndir neu eu nodweddion, yn ogystal â natur croestoriadol sy'n arbennig o berthnasol i brofiad o gam-drin ar-lein.
- A1.251 Yn gyffredinol, mynegodd BT gefnogaeth i'r gofyniad yn y Bil Diogelwch Ar-lein, i bob gwasanaeth leihau deunydd CSEA i'r eithaf, a'r pwerau i Ofcom ddilyn a gorfodi mesurau technegol os nad yw'n fodlon. Awgrymodd BT: 1) Bod Ofcom yn datblygu trefn reoleiddio gyda Chodau Ymarfer statudol sy'n mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar niwed. 2) Bod Ofcom yn datblygu Codau Ymarfer ar gyfer gwasanaethau pornograffi masnachol, gan gyhoeddi canllawiau sy'n rhoi eglurder a chysondeb i ddefnyddwyr ynghylch sut yr ymdrinnir â chynnwys 'niweidiol ond nid anghyfreithlon' ac ymgynghori â rhanddeiliaid allanol. 3) Dylai Ofcom gael pwerau casglu gwybodaeth sy'n cyfateb i'r rheini mewn telathrebu a darlledu er mwyn ei alluogi i gyflawni ei rôl reoleiddio orau, 4) Pan fydd Ofcom yn cael cwynion gan ddiodefwyr niwed, dylai fod ganddo'r pwerau i ymchwilio, rhoi sancsiynau ystyrion, a chymryd camau cywiro amserol. Mynegodd BT bryderon hefyd ynghylch rôl sylweddol yr Ysgrifennydd Gwladol, gan awgrymu bod modd gwneud penderfyniadau gwell pan fydd rheoleiddiwr yn annibynnol ac nad yw'n destun gormod o oruchwyliaeth gan y Llywodraeth.
- A1.252 Roedd Full Fact yn teimlo nad yw'r Cynllun Gwaith yn egluro'n iawn sut bydd Ofcom yn paratoi ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein newydd, a dylai nodi hyn yn gliriach. Mae'n

¹⁷ <https://bills.parliament.uk/bills/3137>

awgrymu y dylai Ofcom fod yn cynllunio i roi'r drefn ar waith yn fuan, gan gynnwys ymgynghori ar y codau ymarfer newydd.

- A1.253 Croesawodd Llywodraeth Cymru ymgysylltiad cadarnhaol Ofcom â'r maes gwaith hwn, gan godi pwysigrwydd hyn er mwyn i gynlluniau adlewyrchu blaenoriaethau yng Nghymru a chydnabod gwahaniaethau mewn meysydd datganoledig, fel addysg a'r cwricwlwm, diogelu a'r iaith Gymraeg.
- A1.254 Roedd CCNI yn cytuno bod yn rhaid i wasanaethau ar-lein fod yn atebol a chwarae eu rhan i atal niwed i ddefnyddwyr. Awgrymodd fod Ofcom yn nodi'n glir y gofynion penodol y mae'n disgwyl i lwyfannau ar-lein gydymffurfio â nhw, a bod y gofynion hyn ar gael i'r cyhoedd, yn dryloyw ac yn hawdd i bawb eu deall. Awgrymodd hefyd fod Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r Uned Marchnadoedd Digidol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i ddatblygu dull rheoleiddio cadarn ar gyfer gwasanaethau ar-lein sy'n diogelu defnyddwyr, gan bwysleisio pwysigrwydd cydlynu rheoleiddiol.
- A1.255 Roedd Gwasanaethau'r Ombwdsmon yn teimlo bod yn rhaid cael tryloywder ac atebolrwydd priodol ar gyfer gwasanaethau ar-lein i sicrhau diogelwch ar-lein, ac mae'n cynnig cefnogi gwaith Ofcom yn rheoleiddio niwed ar-lein.
- A1.256 Roedd PPA yn cydnabod bod y Bil Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod Ofcom yn paratoi codau ymarfer, gan gynnwys ar gynnwys newyddiadurol. Awgrymodd y dylid rhoi sylw i'r dyletswyddau i ddiogelu cynnwys newyddiadurol gyda chod ymarfer penodol sy'n cefnogi amcanion y Bil o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Gofynnodd i Ofcom ddechrau gweithio ar y codau ymarfer ar unwaith, fel bod Ofcom yn barod i orfodi cyn gynted ag y daw'r Bil yn gyfraith a bod Ofcom yn ymgynghori â'r rheini sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau rheoledig y Deyrnas Unedig. Mae PPA yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y gwaith hwn.
- A1.257 Roedd FCS yn teimlo y dylai'r cyfrifoldeb i sicrhau diogelwch ar-lein gael ei dargedu at y parti sydd â'r rheolaeth a'r gallu technegol i gefnogi gofynion y diwydiant (darparwyr rhwydwaith ISP yn gyffredinol).
- A1.258 Mynegodd y Gymdeithas Darparwyr Dilysu Oed bryderon bod yr amserlenni ar gyfer gweithredu ar Ddiogelwch Ar-lein a VSP yn araf ac effeithiolrwydd y drefn, yn enwedig mewn perthynas â diogelu defnyddwyr iau rhag cynnwys i oedolion.

Ein hymateb

- A1.259 Mater i Lywodraeth a Senedd y DU yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y drefn newydd, gan gynnwys y diffiniad o niwed, a'r rhestr o niwed sy'n cael blaenoriaeth. Rydym yn darparu cyngor technegol i'r Llywodraeth a'r Senedd i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn effeithiol ac yn ymarferol ac yn cefnogi gweithredu amserol. Nodwn fod y Llywodraeth yn ddiweddar wedi cyhoeddi rhestr o droseddau blaenoriaeth y mae'n bwriadu eu cynnwys ar wyneb y ddeddfwriaeth.
- A1.260 Er nad yw'r Bil Diogelwch Ar-lein yn ein rhagweld yn dyfarnu ar gwynion am eitemau unigol o gynnwys, byddwn yn ystyried profiadau defnyddwyr unigol wrth asesu effeithiolrwydd

mesurau diogelwch cwmnïau. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a geir o gwynion defnyddwyr yn ogystal â chynnal gwaith ymchwil a dadansoddi data. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig casglu safbwyntiau o bob rhan o'r DU, ac mae ein hymchwil arolwg yn gallu adrodd yn ôl fesul gwlad. Mae ein hymchwil ansoddol hefyd yn cynnwys cyfranogwyr o'r pedair gwlad yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau. Bydd gennym hefyd bwerau casglu gwybodaeth helaeth a fydd yn ein galluogi i sicrhau bod gennym yr wybodaeth a'r data angenrheidiol i asesu cydymffurfriad, a thafllu goleuni ar arferion diogelwch cwmnïau.

- A1.261 Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod pob gwasanaeth o fewn y cwmpas yn asesu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaethau, ac os felly, yn asesu risgiau a allai godi i blant, ac yn cymryd camau cymesur i'w lliniaru a diogelu plant rhag cynnwys sy'n niweidiol iddynt. Mae dyletswyddau penodol hefyd i ddefnyddio systemau a phrosesau cymesur sydd wedi'u dylunio i atal unigolion rhag dod ar draws cynnwys anghyfreithlon â blaenoriaeth, gan gynnwys deunydd cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cadarnhau ei bwriad i fynnu bod gwasanaethau ar-lein sy'n cyhoeddi pornograffi yn atal plant rhag cael mynediad, gan gynnwys drwy ddefnyddio technolegau dilysu oedran.
- A1.262 Pan fydd gwasanaeth o fewn y cwmpas wedi methu â chydymffurfio â'i ofynion rheoleiddio, bydd gan Ofcom amrywiaeth o bwerau gorfodi, gan gynnwys cosbau ariannol sylweddol. Mewn rhai amgylchiadau o niwed parhaus, bydd Ofcom yn gallu gwneud cais i'r Llysoedd i geisio gorchymyn am fesurau tarfu ar fusnes.
- A1.263 Yn unol â sut rydym yn ymdrin â'n dyletswyddau rheoleiddio presennol, byddwn yn defnyddio dull ymgynghorol i ddatblygu'r drefn rheoleiddio diogelwch ar-lein, fel ei bod yn seiliedig ar fewnbwn diwydiant, sefydliadau sy'n hyrwyddo hawliau defnyddwyr y rhynggrwyd, academyddion a rhanddeiliaid eraill.
- A1.264 Er mai dim ond ar ôl i ni gael y pwerau angenrheidiol y gallwn ni ymgynghori'n ffurfiol ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein gael Cydsyniad Brenhinol a dod i rym, byddwn yn parhau i feithrin perthynas â rhanddeiliaid eleni a sicrhau ein bod yn barod i roi'r drefn ar waith cyn gynted â phosibl ac mor effeithiol â phosibl ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am ein dull gweithredu ar gyfer rhoi'r drefn ar waith yn ystod y flwyddyn.
- A1.265 Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Ofcom ganllawiau ar gyfer llwyfannau rhannu fideos (VSP) sydd wedi'u sefydlu yn y DU ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunyddiau niweidiol. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu darparwyr VSP gyda'i rwymedigaethau rheoleiddiol ynghylch yr angen i gael mesurau priodol ar waith i ddiogelu pobl ifanc o dan 18 oed rhag deunydd pornograffig, gan gynnwys dilysu oed yn gadarn ar gyfer VSP sy'n arbenigo mewn pornograffi. Ochr yn ochr â'n canllawiau, roeddem hefyd wedi cyhoeddi ein cynllun a'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio VSP, sy'n nodi y byddai dilysu oedran yn flaenoriaeth frys i Ofcom.
- A1.266 Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym wrthi ar hyn o bryd yn deall y mesurau sydd gan lwyfannau oedolion ar waith, y penderfyniadau seiliedig ar risg sydd wedi cael eu gwneud ynghylch diogelwch ar eu safleoedd, ac unrhyw heriau o ran dilysu oedran. Rydym yn

gweithio gyda'r darparwyr i'w helpu i ddeall gofynion y fframwaith a sicrhau bod ganddynt systemau cadarn ar waith i ddarparu mesurau diogelu priodol.

- A1.267 Rydym yn cydnabod bod rheoleiddio effeithiol ar y sector digidol yn gofyn am ddull gweithredu soffistigedig a chydgyssylltiedig rhwng rheoleiddwyr. Rydym wedi cynyddu ein cydweithrediad â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi lansio fforwm ar y cyd, y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF), i gyfuno gwybodaeth, arbenigedd, sgiliau ac adnoddau; ac i hyrwyddo dulliau rheoleiddio cydweithredol.

Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau/Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

- A1.268 Cododd Sylfaenwyr a Mentoriaid y sefydliad y cwestiwn a oes gan Ofcom unrhyw gynlluniau o dan eu gwaith ar ddiogelwch Ar-lein i ddysgu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn ysgolion i sicrhau bod plant yn cael eu dysgu i wahaniaethu rhwng gwirionedd ac anwiredd mewn negeseuon yn y cyfryngau.
- A1.269 Nododd Pwyllgor Cynghori'r Alban yn eu cyflwyniad eu bod yn teimlo ei bod yn ymddangos bod dryswch rhwng ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a niwed ar-lein (gan gynnwys camwybodaeth a thwyllwybodaeth). Yn hyn o beth, hoffen nhw weld Ofcom yn cyfleu'n well y camau maen nhw'n bwriadu eu cymryd ym mhob un o'r meysydd hyn yn annibynnol.
- A1.270 Dywedodd Full Fact y bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn gosod dyletswydd newydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan ddisodli dyletswydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau presennol Ofcom, a does dim llawer o esboniad o'r hyn mae Ofcom yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â'r ddyletswydd ddiwygiedig hon. Mae Full Fact yn credu os yw llythrennedd gwell yn y cyfryngau am chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fynd i'r afael â risgiau niwed ar-lein, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth, yna bydd angen llawer mwy o ymrwymiad i adnoddau (a defnyddio adnoddau gan eraill). Bydd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gynyddu ei ymdrechion yn y maes hwn a sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu'n glir i'w helpu i wneud hynny'n effeithiol.

Ein hymateb

- A1.271 Mae gan Adran Addysg Llywodraeth y DU statws sylwedydd yn ein panel cynghori traws-swyddogaethol ar lythrennedd yn y cyfryngau, sy'n caniatáu i ni gadw perthynas waith anffurfiol. Nid yw'r hyn sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion yn rhan o gylch gwaith Ofcom – mae'n gyfrifoldeb i Adran Addysg Lloegr ac i'r llywodraethau datganoledig yn rhannau eraill y DU.
- A1.272 Mae dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau Ofcom yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, tra bydd ein dyletswyddau o ran Diogelwch Ar-lein yn cael eu pennu gan y Bil Diogelwch Ar-lein ac rydym yn bwriadu amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau hyn yn 2022/23.

A1.273 Yn ein Dogfen Dull o ran Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau Ar-lein¹⁸, rydym yn rhoi manylion y pum maes rydym yn canolbwyntio arnynt. Wrth gwrs, mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gorgyffwrdd â diogelwch ar-lein gan fod diogelwch ar-lein yn rhan annatod o lythrennedd yn y cyfryngau ar-lein, sydd hefyd yn rhoi sylw i gynhwysiant digidol a chanolbwyntio ar ddewisiadau dylunio llwyfannau. Byddwn yn parhau i edrych ar gamwybodaeth/twyllwybodaeth drwy ein rhaglen ymchwil barhaus ar lythrennedd yn y cyfryngau. Mae Full Fact hefyd yn cael ei gynrychioli ar y Panel Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod a llywio'r gwaith o ddatblygu ymchwil a gwaith polisi Ofcom ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Materion eraill ar-lein

A1.274 Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi codi'r pwynt y bydd y Bil Etholiadau yn creu gofynion cyfreithiol newydd ar gyfer hysbysebion gwleidyddol ac felly byddai'n fuddiol cymharu dulliau wrth i'r Comisiwn Etholiadol ac Ofcom baratoi ar gyfer cyfundrefnau newydd sy'n rheoleiddio'r gofod ar-lein, ac felly bydd yn cynnwys rhai o'r un rhanddeiliaid.

A1.275 Nododd y Comisiwn Etholiadol ymhellach yn ei gyflwyniad fod gan y ddyletswydd newydd arfaethedig ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol i 'ddiogelu cynnwys o bwysigrwydd democrataidd', a chynigion ehangach yn y Bil i leihau niwed ar-lein, oblygiadau clir i gynnal dadleuon gwleidyddol ar-lein, yn enwedig yn ystod cyfnod yr ymgyrch cyn etholiadau. O'r herwydd, nodwyd y byddai'n fuddiol cysylltu â Llywodraeth y DU ac Ofcom fel rhan o'r fframwaith sy'n ymwneud ag etholiadau, gan wella tryloywder ac ymgyrchu ar-lein.

Ein hymateb

A1.276 Rhyddid mynegiant yw enaid y rhyngwyd yn ogystal â bod yn ganolog i'n democratiaeth, ein gwerthoedd a'n cymdeithas. Fel y rheoleiddiwr darlledu, rydym wedi arfer sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu cynulleidfaoedd a hawliau cyfreithiol i ddarlledu ac i dderbyn amrywiaeth eang o safbwyntiau a syniadau. Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau fel y Comisiwn Etholiadol sydd ag arbenigedd mewn perthynas â chynnwys sy'n bwysig yn ddemocrataidd, a rheoleiddwyr a chyrrff cyhoeddus perthnasol eraill, wrth i ni weithredu rhannau perthnasol y drefn.

¹⁸ <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/media-literacy-research/approach>

Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

Amrywiaeth a chynhwysiant

- A1.277 Nododd ACS eu bod yn falch o weld ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei amlygu yn y Cynllun Gwaith, ond nid yw'n ymddangos bod fawr o sôn am gynlluniau cynhwysiant. Byddent yn awyddus i ddeall mwy am sut mae diwylliant Ofcom yn datblygu i fod yn fwy cynhwysol a byddent wrth eu bodd yn gweld Ofcom yn fodel rôl ar gyfer y diwydiant cyfathrebiadau.
- A1.278 Dywedodd NADP, gan fod cyfathrebu'n rhwystr allweddol i bobl sydd wedi colli eu clyw, y byddent yn disgwyl i ragor o bobl sydd â'r profiad byw o golli eu clyw ddarparu mewnbwn ehangach i'r meysydd hynny yn Ofcom ac yn meddwl tybed a fydd rhagfarn fwriadol at gyflogi pobl sydd â nam ar eu clyw yn yr ardaloedd hynny.

Ein hymateb

- A1.279 Bwriad Ofcom yw cydbwysu'r angen am ymyriadau sy'n cynyddu amrywiaeth â blaenoriaethau cynhwysiant sy'n cefnogi camau pendant yn niwylliant ac arweinyddiaeth ein gweithlu. Mae ein strategaeth yn amlinellu'r gwaith y byddwn yn ei wneud i fesur ac i olrhain cynhwysiant, i wella ein gwerthoedd; i gefnogi cydweithwyr yn eu hiechyd a'u llesiant; i gefnogi ac i fuddsoddi yn ein rhwydweithiau cydweithwyr ac yn ein harweinwyr i fod yn fodelau rôl ar gyfer cynhwysiant. Mae ein dymuniad i fod yn 'deg drwy ddylunio' yn golygu ein bod hefyd wedi gwreiddio cynhwysiant yn nifer o'n prosesau a'n systemau ac mae ein camau gweithredu penodol yn y maes hwn wedi'u hamlinellu yn y strategaeth hefyd. Mae ein gwaith Amrywiaeth mewn Darlledu yn annog darlledwyr yn frwd i ddarparu gwybodaeth ansoddol am eu mentrau cynhwysiant ac mae ein gweledigaeth a'n hargymhellion ar gyfer darlledwyr dros y pum mlynedd nesaf yn cynnwys ymgorffori cynhwysiant yng nghanol eu sefydliadau er mwyn meithrin newid systemig a diwylliannol.
- A1.280 Mae cynyddu cynrychiolaeth i bobl anabl yn flaenoriaeth i ni ac mae gennym darged i 15% o'n gweithlu fod yn anabl (gan gynnwys y rheini sydd â nam ar eu clyw) erbyn 2026. Er mwyn gyrru ein huchelgais rydym yn rhan o'r cynllun Hyderus o ran Anabledd, sy'n cynnig cyfweiliad wedi'i warantu i bobl anabl sy'n bodloni meini prawf sylfaenol y rôl, ac rydym hefyd yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (lefel 2). Rydym yn ymgyrraedd at gydnabyddiaeth Lefel 3 i sicrhau ein bod yn parhau i ddenu, recriwtio a chadw pobl anabl. Mae ein rhwydwaith staff SOUND19 yn cefnogi cydweithwyr sydd â phrofiad uniongyrchol o anabledd a chyflyrau hirdymor yn y gweithle. Mae SOUND yn cynnal grwpiau cefnogi ar amodau penodol i'w haelodau, yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anabledd ac yn cefnogi Ofcom drwy ddylanwadu ar newid a'n helpu i wella'r ffordd rydym yn gwneud pethau. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithio gyda'n tîm cyfathrebiadau mewnol i uwchraddio ein templedi dogfennau neu ddarparu gwybodaeth a chymorth i'n tîm recriwtio. Er nad oes gennym dargedau gweithlu penodol ar gyfer pobl â nam ar eu clyw,

¹⁹ <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/jobs/benefits/colleague-networks-groups>

rydym wedi cyflwyno cwestiwn ychwanegol ar ein system staff yn gofyn am natur anabled pobl er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o gynrychiolaeth anabl yn Ofcom a fydd yn ein galluogi i gynnig cymorth wedi'i dargedu'n well i gydweithwyr. Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn rhoi cyngor i Ofcom ar faterion cyffredinol a phenodol sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau a phost, ac sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Strategaeth Ymgysylltu

A1.281 Roedd Openreach yn gwerthfawrogi'r gwaith cynllunio a'r gwaith a wnaed gan Dîm y Gofrestrfa Gwybodaeth. Bu gwelliannau i ffyrdd o weithio a chyfathrebu ynghylch amseriad ceisiadau arfaethedig Ofcom am wybodaeth. Maes yr hoffai Openreach fynd ar ei drywydd gydag Ofcom yw diffinio a chyhoeddi ceisiadau am wybodaeth ar ddangosyddion perfformiad allweddol, er enghraifft nifer y ceisiadau am wybodaeth a gyhoeddwyd, nifer y ceisiadau a ailadroddir neu gostau a manteision ceisiadau. Byddai hyn yn rhoi tryloywder i randdeiliaid o ran sut mae Ofcom yn defnyddio ei bwerau ac i nodi cyfleoedd ar gyfer rhagor o effeithlonrwydd. Byddai Openreach hefyd yn hoffi gofyn am unrhyw waith addysgu y gellir ei rannu i wella eu hymatebion a'u proses.

Ein hymateb

A1.282 Rydym yn cefnogi gwella tryloywder o ran ein gweithgareddau casglu gwybodaeth. Mae Tîm y Gofrestrfa Wybodaeth yn edrych ar ffyrdd o rannu rhagor o wybodaeth ac mae'n agored i awgrymiadau o'r fath ynghylch sut mae cefnogi rhanddeiliaid yn well.

Newid yn yr Hinsawdd

A1.283 Nododd ACS eu bod yn falch iawn o weld ymrwymiad i ymgyrraedd at sero net. Drwy ffocws corfforaethol ac mewn trafodaeth â'r diwydiant, byddent yn hoffi deall ymhellach sut mae Ofcom yn bwriadu bod yn fodel rôl ar gyfer y diwydiant cyfathrebiadau. Er enghraifft, a oes set o fetrigau y gall Ofcom eu rhoi ar waith i helpu i fesur cynnydd Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu at leihau'r ynni a ddefnyddir gan yr offer yn eu rhwydweithiau a'u canolfannau data.

A1.284 Nododd Llywodraeth Cymru y canlynol: bod angen i Ofcom ganolbwyntio'n gryfach ar herio'r diwydiant telathrebu a darlledu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella cynaliadwyedd er mwyn cyfrannu at y momentwm tuag at gyflawni targed carbon sero net y DU; mae angen i Ofcom ymchwilio i sut gall ddefnyddio'r pwerau rheoleiddio sydd ganddo ac yna defnyddio ei bwerau i gasglu data i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen i leihau allyriadau carbon a gynhyrchir gan y sector; Mae angen i'r naratif yn y gofod hwn symud oddi wrth gyfraniadau ar lefel sector neu ddiwydiant sy'n ymwneud â galluogi pobl i weithio gartref, lleihau'r angen i deithio ac ati, i edrych yn fanylach ar ymdrechion rhagweithiol pob cwmni yn y sector neu'r diwydiant i ddangos tystiolaeth o'u cyfraniadau unigol yn yr ymdrech hon.

A1.285 Argymhellodd BT fod Ofcom yn cynnal ac yn cyhoeddi adroddiad effaith cynaliadwyedd y sector telathrebu. Ar sail adroddiad o'r fath, gall Ofcom lunio canllawiau ac egwyddorion

cynaliadwyedd ar gyfer y sector. Dylai Ofcom roi rhagor o adnoddau yn y maes hwn, fel datblygu fframwaith ar gyfer pwysu a mesur effaith unrhyw benderfyniadau rheoleiddio yn y dyfodol ar gynaliadwyedd a nodi penderfyniadau lle gellid defnyddio fframwaith o'r fath

- A1.286 Croesawodd Llywodraeth yr Alban rôl gwasanaethau cyfathrebiadau o ran lleihau allyriadau carbon a galluogi gwasanaethau fel mesuryddion clyfar. Mae'r gwaith o gyflwyno mesuryddion clyfar yn yr Alban yn dal ar ei hôl hi oherwydd problemau cyfathrebiadau, gan nad yw cysylltiadau Rhwydwaith Ardal Eang â system Arqiva ar gael bob tro, ac nid yw defnyddwyr yn gallu elwa ar y manteision y gall mesuryddion clyfar eu darparu.

Ein hymateb

- A1.287 Yn ein barn ni, mae gan y sector cyfathrebiadau rôl hollbwysig o ran galluogi'r DU i leihau'r defnydd o ynni a rheoli adnoddau'n fwy effeithlon. Amcangyfrifwyd y gallai'r rôl alluogi hon arwain at wella allyriadau'r sector cyfathrebiadau ei hun sawl gwaith drosodd. Er enghraifft, mae'r GSMA yn amcangyfrif y gallai technolegau symudol ar raddfa fyd-eang alluogi gostyngiadau sydd wedi cael eu hosgoi ar raddfa ddeng gwaith yn fwy nag ôl troed nwyon tŷ gwydr y sector ei hun²⁰. Yn hynny o beth, rydym eisoes yn asesu'r galw am sbectrwm gan y sector cyfleustodau sydd ei angen i gefnogi gridiau clyfar a mesuryddion clyfar er mwyn cyflawni amcanion datgarboneiddio.
- A1.288 Felly, rydym yn falch o weld bod ein rhanddeiliaid eisoes yn ymrwymo'n rhagweithiol ac yn wirfoddol i leihau eu heffeithiau amgylcheddol eu hunain. Er enghraifft, yn y sector darlledu, gwelwn lefelau gwych o gydweithio rhwng y darlledwyr hynny yn y DU sydd wedi cofrestru ar gyfer prosiect Albert BAFTA.²¹ Mae ganddo ddau nod, sef un ar negeseuon cynaliadwy a'r llall ar "ddileu gwastraff ac allyriadau carbon yn rhagweithiol wrth gynhyrchu" y mae ganddynt gyfrifiannell carbon ar ei gyfer.
- A1.289 Rydym yn gweithio i ennill ardystiad ISO14001 erbyn Ch1 2022/23 ac rydym yn gobeithio y bydd ein rhanddeiliaid yn cael eu hysgogi i ymgymryd â mentrau tebyg os nad ydynt eisoes yn gwneud hynny. Nid oes gan Ofcom unrhyw swyddogaethau statudol (amcanion, pwerau a dyletswyddau) yn benodol mewn perthynas â'r amgylchedd. Felly, mae cyfyngiadau ar ein gallu i roi unrhyw fesurau rhwymol ar waith, fel metrigau ar gyfer mesur faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio. Serch hynny, rydym yn bwriadu edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i gefnogi ein rhanddeiliaid yn y broses o bontio i sero net o fewn ein pwerau presennol, a thrwy gydweithredu gwirfoddol.
- A1.290 Nid yw ein pwerau statudol yn golygu y gallwn ymchwilio i rhanddeiliaid a'u gorfodi i ddarparu data a gwybodaeth arall i ni am allyriadau carbon yn unig. Ni allem ychwaith ddatblygu fframwaith ffurfiol ar gyfer pwysu a mesur effaith cynaliadwyedd cymharol penderfyniadau rheoleiddio yn y dyfodol heb newid deddfwriaethol (rhywbeth y byddai'n rhaid i Lywodraeth a Senedd y DU ei ystyried yn ofalus).

²⁰ <https://www.gsma.com/betterfuture/wp-content/uploads/2020/07/GSMA-Climate-Policy.pdf>

²¹ <https://wearealbert.org/>

- A1.291 Nodwn fod Llywodraeth y DU yn rhoi amryw o fesurau ar waith i gymell pob cwmnïau mawr, gan gynnwys cwmnïau cyfathrebiadau, i leihau eu hallyriadau ac adrodd arnynt. Dros amser, efallai y bydd dulliau gwirfoddol ychwanegol y bydd y diwydiant cyfathrebiadau yn eu mabwysiadu i gefnogi adrodd cadarn. Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynghylch sut maent yn adrodd ar eu hallyriadau fel rhan o'n hymchwiliad i sut mae ein sectorau'n cyfrannu at y momentwm at sero net.
- A1.292 Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ystyried pa gamau ychwanegol y gall Ofcom eu cymryd i roi cymorth i ddarparu eglurder ar rai materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn ein sectorau. Er enghraifft, mae Ofcom eisoes wedi cynhyrchu adroddiad 'Dyfodol y Rhyngwrwyd' yn 2021 a oedd yn trafod cyfleoedd effeithlonrwydd ynni o ran sut mae canolfannau data'n cael eu hadeiladu a sut mae rhwydweithiau'n gweithredu.
- A1.293 Rydym yn nodi bod y Rhwydwaith Ardal Eang sy'n cael ei ddarparu gan Arqiva ar gyfer cysylltu mesuryddion clyfar yn rhan o gontract gyda Smart DCC Limited a gafodd ei drwyddedu gan Lywodraeth y DU yn 2013 i reoli'r gwasanaeth mesuryddion clyfar ar ran ei ddefnyddwyr ac i gontractio a rheoli'r data a'r darparwyr gwasanaethau cyfathrebiadau. Mae'r drwydded DCC yn cael ei rheoleiddio gan Ofgem.

Yn sail i'n gwaith ehangach

Gwerthuso ein gwaith

- A1.294 Eglurodd ACS y byddai'n awyddus i weld asesiad o'r hyn a weithiodd, o amcanion y llynedd, a'r hyn na weithiodd gan fod hyn yn eu galluogi i werthuso'n well pa mor gyraeddadwy yw'r Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Hoffent weld pa gynlluniau yn y Cynllun Gwaith hwn sy'n barhad o'r hyn a ymrwymwyd i'w gyflawni y llynedd, beth sy'n estyniad o'r gwaith hwn a beth sy'n newydd. Byddai dangosfwrdd neu statws rheolaidd ar gynnydd hefyd yn cael ei groesawu ar gyfer y flwyddyn i ddod i olrhain cynnydd. Roeddent yn awgrymu gosod y perfformiad yn erbyn Mesurau Canlyniadau Defnyddwyr 2021/22 gyda darlun clir o'r llwybr a gymerwyd, y meini prawf llwyddiant ac felly datblygiad y mesurau newydd a nodir. Dylai'r Cynllun Gwaith ddangos yr un dull o gynllunio busnes ag y mae Ofcom yn ei ddisgwyl gan eraill. Er enghraifft, adrodd ar berfformiad yn dryloyw, ar sail risg, ar sail tystiolaeth, gan ganolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth rhanddeiliaid a meddwl mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Nid ydynt yn teimlo bod y cynllun yn cyrraedd y safon uchel hon ar hyn o bryd.
- A1.295 Byddai un darlun o'r effaith ar ddefnyddwyr yn helpu i ddangos bod pwerau newydd Ofcom yn integreiddio'n dda i waith presennol Ofcom, a byddai'n dod â'r cynllun yn fyw. Byddai'n ddiddorol gweld sut mae'r gyfres o elfennau gwaith cyfocrog yn effeithio ar aelwyd unigol. Mae hyn yn rhywbeth y mae ACS yn teimlo'n arbennig o gryf yn ei gylch ac mae wedi'i godi fel pwynt o bwys o'r blaen. Mae Ofcom yn rhoi darlun llawer mwy cyfannol o'r hyn y mae'n rhaid i ddefnyddwyr ei wneud er mwyn deall y bwlch digidol a thlodi cyfathrebiadau.

Ein hymateb

- A1.296 Mae'r adran adolygu perfformiad yn ein Hadroddiad Blynyddol yn egluro'r gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r meysydd blaenoriaeth, ac effaith hynny ar bobl ar ac ar fusnesau. Disgwylir y bydd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.
- A1.297 Mae deall effaith ein gwaith rheoleiddio ar ganlyniadau defnyddwyr yn agwedd bwysig ar sicrhau ein bod yn cyflawni ar ran pobl a busnesau yn y DU. Mae gennym gynlluniau i asesu'r effaith ar ddefnyddwyr yn y sectorau digidol a thelegyfathrebu drwy gydol 2022/23.

Lloegr

- A1.298 Dywedodd ACE fod y bwlch rhwng darpariaeth wledig a threfol yn dal i fodoli yn Lloegr, fel yng ngwledydd eraill y DU, ac nad yw'n cau mor gyflym ag sydd angen. Mae angen gwneud mwy drwy ymyriadau gan y Llywodraeth ac ymateb y diwydiant i ddiwallu anghenion unigolion a busnesau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu. Mae'r cynnydd yn rhy araf, a dylai Ofcom barhau i roi pwysau ar y diwydiant a'r llywodraeth i sicrhau bod y bwlch mewn darpariaeth yn cael ei gau yn y ffordd fwyaf cost-ffeithiol. Mae'n galonogol gweld bod

mannau di-gyswllt Symudol Lloegr wedi gostwng o 3% i 2% o'r wlad dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae cyflymder y newid yn dal yn araf iawn. Dylai'r cynllun Rhwydwaith Gwledig Strategol gael effaith sylweddol ar y bwlch hwn, ond unwaith eto, mae'r cynnydd yn araf iawn.

Ein hymateb

A1.299 Mewn perthynas â sylwadau ACE ar fannau di-gyswllt symudol a darpariaeth, fe wnaethom gyhoeddi papur trafod ar ein dull gweithredu ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol ochr yn ochr â phapur trafod ar rwydweithiau symudol a sbectrwm ym mis Chwefror. Rydym yn gwahodd sylwadau ar y ddwy ddogfen erbyn 8 Ebrill 2022. Rydym ni'n bwriadu nodi ein casgliadau erbyn diwedd 2022. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r SRN ac yn monitro'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a byddwn yn adrodd ar y cynnydd drwy ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blyneddol.

Gogledd Iwerddon

- A1.300 Gofynnodd y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu a CCNI i Ofcom fonitro mater ffioedd crwydro, yn benodol mewn perthynas â sefyllfa ddaearyddol Gogledd Iwerddon.
- A1.301 Nododd CCNI fod y ddarpariaeth yn dal yn is yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â'r DU a bod tua 45,000 o adeiladau preswyl a busnes yng Ngogledd Iwerddon yn methu cael darpariaeth band eang sefydlog teilwng, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i wasanaethau band eang fod yn fforddiadwy hefyd: mae gan lai o ddefnyddwyr hŷn, y rheini ar incwm isel a defnyddwyr ag anabledd ar draws Gogledd Iwerddon fynediad i'r rhyngwrwd: mae'n bwysig bod Ofcom yn deall pam nad yw'r grwpiau hyn ar-lein ac yn datblygu cynllun i'w cefnogi.
- A1.302 Ar ben hynny, roedden nhw wedi nodi y dylai Ofcom fonitro, deall ac asesu sut gallai gadael yr UE, a chanlyniad trafodaethau'r DU a'r UE ynghylch Protocol Gogledd Iwerddon, effeithio ar fynediad at wasanaethau post ar gyfer defnyddwyr Gogledd Iwerddon a microfusnesau a busnesau bach. Mae hyn yn cynnwys yr effaith bosibl yn y dyfodol ar y gwasanaeth post cyffredinol.

Ein hymateb

- A1.303 Bydd Ofcom yn parhau i fonitro datblygiadau ar grwydro'n agos, gan gynnwys mesurau i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig y rheini yng Ngogledd Iwerddon, rhag talu ffioedd crwydro am ddefnyddio gwasanaethau crwydro yn anfwriadol.
- A1.304 Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yn llywodraeth Gogledd Iwerddon i ddarparu cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data perthnasol (lle bo hynny'n briodol), i gefnogi'r Prosiect Stratum sy'n cael ei ariannu gan y cyhoedd, a fydd yn dod â band eang cyflym iawn i'r 87,500 eiddo (mwyaf gwledig) yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y blyneddol nesaf.
- A1.305 Mae ein rhaglen monitro yn ystyried y defnydd o wasanaethau post a darparu rhwydweithiau dosbarthu ar draws pob rhan o'r DU. Yn y Diweddariad Monitro Blyneddol y

llynedd, rhoesom sylwebaeth ynghylch gweithredu protocol Gogledd Iwerddon ac effeithiau ar ddanfon parseli, gan gynnwys rhwng Gogledd Iwerddon a thir mawr Prydain Fawr. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cymru

- A1.306 Nododd Llywodraeth Cymru ar ôl cwblhau'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir y bydd 20 y cant o dirwedd Cymru heb ddarpariaeth gan y pedwar gweithredwr ac mae'n is o lawer na Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd Llywodraeth Cymru fod angen i bolisi sbectrwm Ofcom alluogi defnyddio amleddau sbectrwm presennol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i gefnogi mynediad at fand eang symudol cyflym a dibynadwy gartref. Nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl y bydd cyflwyno 5G yn cyfrannu at gyflwyno 4G ar gyfer cysylltiadau band eang yn y cartref, ac felly'n newid i fodel o ddefnydd arferol o fandiau amledd is ac uwch i ddarparu ar gyfer gweithwyr cartref, ac yn enwedig i ymdopi â llawer o ymwelwyr mewn ardaloedd gwledig, sy'n cael effaith negyddol ar gyflymder band eang sefydlog a symudol i ddinasyddion a busnesau lleol.
- A1.307 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod angen i Ofcom, wrth ddatblygu'r strategaeth symudol, ystyried sut gallai rheoleiddio gwahaniaethol yn ddaearyddol chwarae rhan yn y gwaith o wella cysylltedd symudol mewn ardaloedd gwledig a gwledig iawn yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Mae cynsail eisoes wedi cael ei osod ar gyfer y dull gweithredu hwn drwy'r newidiadau i reoleiddio sy'n deillio o'r Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26.
- A1.308 Roedd Llywodraeth Cymru yn dal yn bryderus na fydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn darparu cysylltedd i'r cartrefi a'r busnesau yng Nghymru sydd fwyaf mewn perygl o gael eu hanwybyddu. Nid yw'r cap ar gostau eiddo yn adlewyrchu realiti'r gost o ddarparu ateb band eang cynaliadwy yn ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Mae gormod o adeiladau o hyd sydd y tu allan i gwmpas y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Mae angen rhoi sylw i hyn ar frys. Wrth weithredu'r USO, mae'r Cynllun Gwaith arfaethedig yn datgan y bydd Ofcom yn monitro gwaith BT a KCOM a thra'n croesawu'r ymrwymiad hwn credwn fod angen ymrwymo i adolygu ac addasu'n flynyddol i weithrediad ac effeithiolrwydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru drwy ymyriad Cyflymu Cymru, mae gormod o adeiladau yng Nghymru yn dal heb fynediad at fand eang cyflym a dibynadwy. Mae angen i Ofcom edrych eto ar sut y gall ddefnyddio'r dulliau eraill sydd ar gael iddo i fynd i'r afael â'r ychydig y cant olaf hwn. Nid yw'r ffocws rheoleiddiol ar gystadleuaeth yn ymddangos yn briodol ar gyfer yr adeiladau anodd eu cyrraedd hyn.
- A1.309 Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu ychwanegu ymrwymiad i Gymru ar ddarparu cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data perthnasol (lle bo'n briodol), er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ein prosiectau seilwaith telathrebu allweddol a sicrhau rhyngweithio mor esmwyth â phosibl â chynlluniau eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus yn unol â'r ymrwymiad i'r Alban.

Ein hymateb

- A1.310 Mae Ofcom yn nodi safbwynt y Pwyllgor Cyngori ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu ag ef drwy gydol y broses drwyddedu.
- A1.311 Mewn perthynas â sylwadau Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth symudol, fe wnaethom gyhoeddi papur trafod ar ein dull gweithredu ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol ochr yn ochr â phapur trafod ar rwydweithiau symudol a sbectrwm ym mis Chwefror. Rydym yn gwahodd sylwadau ar y ddwy ddogfen erbyn 8 Ebrill 2022. Rydym ni'n bwriadu nodi ein casgliadau erbyn diwedd 2022.
- A1.312 Mewn perthynas â sylwadau Llywodraeth Cymru am y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang, mae'r darpariaethau hyn wedi'u nodi mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth y DU ac felly byddai unrhyw newidiadau iddo yn fater i Lywodraeth y DU. Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol fel y mae wedi cael ei lansio a byddwn yn parhau i fonitro ei darpariaeth gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM). Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda Llywodraethau'r DU a'r Gwledydd i ddeall sut mae anghenion cysylltedd pobl wedi esblygu a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol, a sut mae modd eu diwallu drwy gynlluniau cyhoeddus a/neu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol lle nad yw'n cael ei gyflwyno'n fasnachol. Gall gwasanaethau lloeren hefyd fod yn opsiwn i gwsmeriaid mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael – rydym yn bwriadu gweithio gyda darparwyr lloeren i ddeall yn fanylach beth mae modd ei ddarparu ar y rhwydweithiau hyn.

Yr Alban

- A1.313 Nododd Llywodraeth yr Alban y bydd Ofcom yn cynyddu ei bresenoldeb yn ei swyddfeydd ledled y DU, ac mae ganddo ddiddordeb mewn deall cynlluniau Ofcom ar gyfer ehangu yng Nghaeredin yn 2022/23.
- A1.314 Nododd Llywodraeth yr Alban nad yw cap cost y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol o £3,400 y cysylltiad yn adlewyrchu'r costau uwch y bydd rhai cwsmeriaid mewn ardaloedd anghysbell, gwledig ac ynysoedd yn eu hwynebu i gael y cysylltiad hwnnw. Dywedodd Llywodraeth yr Alban hefyd, er mwyn i gymunedau mwy anghysbell a gwledig yr Alban elwa, y dylid ystyried sut gellid addasu'r cynllun o bosibl i weithio'n fwy effeithiol ochr yn ochr ag ymyriadau eraill sy'n cael eu harwain gan y galw, fel Cynllun Talebau Band Eang yr Alban Reaching 100% (R100) Llywodraeth yr Alban neu Gynllun Talebau Band Eang Gigabit Llywodraeth y DU.
- A1.315 Nododd Llywodraeth yr Alban eu bod yn teimlo y gallai Ofcom hefyd fod â rôl i weithio ar y cyd â'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol o ran mwy o dryloywder o ran y cynnydd yn narpriaeth ddisgwyliedig y Rhwydwaith Gwledig a Rennir – ar gyfer elfennau rhannol a manau digyswllt y rhaglen.

Ein hymateb

- A1.316 Yn strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Ofcom, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021²², roeddem yn cydnabod er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu wir yn gweithio i bawb yn y DU, yna rhaid i ni ddeall anghenion pobl ar draws gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU. Mae gan Ofcom gydweithwyr ym mhob un o'r pedair gwlad, sy'n bwysig o ran sicrhau ein bod yn cynrychioli'r dinasyddion a'r defnyddwyr rydym yma i'w gwasanaethu. Yn unol â'r strategaeth honno, mae ein presenoldeb yn yr Alban wedi parhau i dyfu dros y flwyddyn ddiwethaf ac ar hyn o bryd rydym yn datblygu strategaeth gweithle ehangach ar sut rydym yn defnyddio ystad Ofcom wrth i ni ddechrau dod allan o'r pandemig ac addasu i ffyrdd newydd o weithio. Mae hynny'n cynnwys ystyried twf pellach yn ein swyddfa yng Nghaeredin yn ogystal â'n swyddfeydd yng Nghaerdydd a Belfast yn y flwyddyn i ddod. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion Llywodraeth yr Alban am gynnydd y gwaith hwn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.
- A1.317 Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang wedi'i nodi mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth y DU ac felly byddai unrhyw newidiadau iddo yn fater i Lywodraeth y DU. Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol fel y mae wedi cael ei lansio a byddwn yn parhau i fonitro ei darpariaeth gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM). Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU i ddeall sut mae anghenion cysylltedd pobl wedi esblygu a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol, a sut mae modd eu diwallu drwy gynlluniau cyhoeddus a/neu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol lle nad yw'n cael ei gyflwyno'n fasnachol. Gall gwasanaethau lloeren hefyd fod yn opsiwn i gwsmeriaid mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael – rydym yn bwriadu gweithio gyda darparwyr lloeren i ddeall yn fanylach beth mae modd ei ddarparu ar y rhwydweithiau hyn.
- A1.318 Mae gan Ofcom gyfrifoldeb dros asesu cydymffurfriad ag ymrwymadau'r drwydded sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ac yn adrodd ar y cynnydd drwy ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blyneddol. Byddwn yn parhau i fod yn sylwedydd ar Weithgor Rhwydwaith Gwledig a Rennir Llywodraeth yr Alban.

²² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0013/210901/diversity-and-inclusion-strategy-report-2019-20-welsh.pdf